| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **21 MAI 2026** |
| TEITL | **CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **AMLINELLU GWAITH ARCHWILIO MEWNOL AM Y CYFNOD HYD AT 31 MAWRTH 2026** |
| AWDUR | **LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNNWYS A CHEFNOGI'R GWEITHREDIADAU SYDD EISOES WEDI'U CYTUNO GYDA'R GWASANAETHAU PERTHNASOL** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang, Safon 11.3, Cyfathrebu Canlyniadau, yn nodi bod *"yn rhaid i'r prif weithredwr archwilio gyfathrebu canlyniadau gwasanaethau archwilio mewnol i'r bwrdd a'r uwch reolwyr o bryd i'w gilydd ac ar gyfer pob archwiliad fel y bo'n briodol."*

1.2 Ymhellach, nodir yn Safon 15.1, Cyfathrebu Ymgysylltiad Terfynol *"rhaid i'r prif weithredwr archwilio rannu'r cyfathrebu terfynol i bartïon a all sicrhau bod y canlyniadau'n cael eu hystyried yn briodol."*

1.3 Mae'r adroddiad yma yn crynhoi gwaith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 26 Ionawr 2026 hyd 31 Mawrth 2026.

## 2. GWAITH A GWBLHAWYD YN Y CYFNOD

2.1 Cwblhawyd y gwaith canlynol yn y cyfnod o 26 Ionawr 2026 hyd 31 Mawrth 2026:

| Disgrifiad | Nifer |
|---|---|
| Adroddiadau am Archwiliadau o'r Cynllun Gweithredol 2025-26 | 12 |

Ceir manylion pellach ar y gwaith yma yng nghorff yr adroddiad hwn ac yn yr atodiadau amgaeedig.

**2.2 Adroddiadau Archwilio**

2.2.1 Mae'r tabl canlynol yn gosod allan yr archwiliadau o'r cynllun a gwblhawyd yn y cyfnod o 26 Ionawr 2026 hyd 31 Mawrth 2026, gan ddangos y lefel sicrwydd perthnasol a chyfeiriad i'r atodiad perthnasol.

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | LEFEL SICRWYDD | ATODIAD |
|---|---|---|---|---|
| Dilyniant Cludiant Ysgolion | Addysg | Ysgolion | Digonol | Atodiad 1 |
| Dilyniant Clybiau Brecwast | Addysg | Ysgolion | Cyfyngedig | Atodiad 2 |
| Dilyniant Trafnidiaeth Ysgolion | Amgylchedd | Trafnidiaeth a Chefn Gwlad | Cyfyngedig | Atodiad 3 |
| Rheolaeth Adeiladu | Amgylchedd | Gwasanaeth Rheolaeth Adeiladu | Digonol | Atodiad 4 |
| Rheoli Gwybodaeth a Diogelu Data | Corfforaethol | - | Cyfyngedig | Atodiad 5 |
| Hyfforddiant Mandadol | Gwasanaethau Corfforaethol | Dysgu a Datblygu'r Sefydliad | Digonol | Atodiad 6 |
| Trefniadau Tân | Corfforaethol | - | Digonol | Atodiad 7 |
| Diogeliadau Amddifadu Rhyddid | Oedolion, Iechyd a Llesiant | Diogelu, Sicrwydd Ansawdd a Iechyd Meddwl | Cyfyngedig | Atodiad 8 |
| Fflyd - Defnydd Tanwydd | Priffyrdd, Peirianneg a YGC | Fflyd | Cyfyngedig | Atodiad 9 |
| Dilyniant Goramser Glanhau Stryd | Priffyrdd, Peirianneg a YGC | Glanhau Strydoedd | Digonol | Atodiad 10 |
| Dilyniant Rheolaeth Categori - Amgylchedd | Priffyrdd, Peirianneg a YGC | Rheolaeth Categori | Cyfyngedig | Atodiad 11 |
| Amlosgfa Bangor | Priffyrdd, Peirianneg a YGC | Asedau Bwrdeistrefol | Digonol | Atodiad 12 |

2.2.2 Mae lefelau sicrwydd cyffredinol archwiliadau yn syrthio i un o bedwar categori fel y dengys y tabl isod.

| | | |
|---|---|---|
| **LEFEL SICRWYDD** | **UCHEL** | Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion. |
| | **DIGONOL** | Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach. |
| | **CYFYNGEDIG** | Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt. |
| | **DIM SICRWYDD** | Ystyrir bod y rheolaethau mewn lle yn annigonol gyda methiant i gyflawni amcanion. |

## 3. GWAITH AR Y GWEILL

3.1 Roedd y gwaith canlynol ar y gweill ar 31 Mawrth 2026:

- Addysg Tu Allan i'r Ysgol *(Addysg)*
- Ymwybyddiaeth Gweithwyr Maes o'r Polisi Diogelu *(Corfforaethol)*
- Taliadau All-Sirol *(Plant a Chefnogi Teuluoedd)*
- Costau Llety Argyfwng *(Tai ac Eiddo)*

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad hwn ar waith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 26 Ionawr 2026 hyd 31 Mawrth 2026, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi'r gweithrediadau cytunedig sydd eisoes wedi'u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol.

Atodiad 1

# DILYNIANT CLUDIANT YSGOLION

## 1. Cefndir

1.1 Cynhaliwyd Archwiliad Mewnol Cludiant Ysgolion fel rhan o gynllun 2024/25, er mwyn sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer gweinyddu a darparu gwasanaeth cludiant ysgolion di-dâl i blant cymwysedig yn unol â Deddf Addysg 1996, yn ogystal â threfniadau casglu incwm ar gyfer plant anghymwys. Rhoddwyd lefel sicrwydd cyfyngedig i'r archwiliad, hynny yw, er bod rheolaethau mewn lle, roedd angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod y gweithrediadau cytunedig yn deillio o'r archwiliad llawn ddiweddaraf wedi eu gweithredu yn amserol i liniaru'r risgiau a adnabuwyd. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio cofnodion a dogfennaeth gefnogol.

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| DIGONOL | **Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.** |

## 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| UCHEL IAWN | 0 |
| UCHEL | 0 |
| CANOLIG | 1 |
| ISEL | 0 |

## 5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 O'r 5 gweithrediad a gytunwyd o'r archwiliad gwreiddiol, gwelwyd fod 4 wedi eu gweithredu, adroddir y casgliadau isod. O ganlyniad, cyflwynir cynllun gweithredu cytunedig diwygiedig ynghlwm â'r adroddiad hwn.

5.2 Cadarnhaodd y Cydlynydd Cludiant fod y Tîm Cludiant yn parhau i beidio â chael eu hysbysu pan fo newid sylweddol yn amgylchiadau plentyn, h.y. newid y byddai'n effeithio ar eu hawl i dderbyn cludiant am ddim. Er bod yr ysgolion yn adrodd newidiadau tebyg ar system SIMS, a hwnnw wedyn yn cael i fwydo i system Synergy (ble mae gan y Tîm Cludiant fynediad), heb fod y newid wedi ei amlygu, byddai'n rhaid gwirio drwy filoedd o geisiadau i adnabod newidiadau. Eglurodd y Swyddog Cefnogi Systemau fod SIMS yn y broses o gael ei disodli gan system Bromcom, fydd yn caniatáu gwell monitro o'r data. Yn y cyfamser, nododd ei fod yn bosibl rhedeg adroddiadau o Synergy o unrhyw newidiadau sylweddol i'w rhannu gyda'r Tîm Cludiant. Erbyn rhyddhau'r adroddiad drafft, cadarnhawyd fod trefniadau wedi eu sefydlu ble fod y Tîm Cludiant yn derbyn adroddiad misol, wedi ei generadu yn awtomatig o system Synergy, yn amlygu unrhyw blant sydd wedi newid ysgol. Adroddwyd fod yr adroddiad wedi galluogi i'r Tîm Cludiant adnabod dau blentyn yn barod ble fod angen newid eu teithiau.

5.3 Am y cyfnod 01/04/25-02/02/26 gwelwyd fod 3,371 o docynnau teithio ôl 16 wedi eu darparu. O'r sampl o 20 wiriwyd yn fanwl, gwelwyd fod yr ymgeiswyr oll yn byw yng Ngwynedd, ac o leiaf 3 milltir i ffwrdd o'r ysgol neu goleg, yn eu gwneud yn gymwys i'r tocyn. Cadarnhaodd Rheolwr Cludiant Addysg fod ystyriaeth wedi ei roi i ail gyflwyno ffi am docynnau teithio ôl 16, ond nad oedd y Cyngor yn ffafrio'r syniad.

5.4 Gwelwyd fod y Tîm Cludiant erbyn hyn yn paratoi adroddiadau tymhorol i'r Cyfrifydd Grŵp Ysgolion yn nodi'r nifer o docynnau bws newydd wedi eu cyflwyno, h.y. yn dilyn colli tocyn bws. Am y cyfnod Medi-Rhagfyr 2025 roedd 26 tocyn wedi eu darparu, gydag ond £10 o incwm wedi ei nodi yn y cyfriflyfr. Nodir fod tocynnau yn £5 yr un. Tybir nad ydi'r ysgolion yn casglu'r incwm, neu ei fod yn cael ei gyfeirebu yn anghywir. Ni dderbyniwyd ymateb gan y Cyfrifydd Grŵp erbyn rhyddhau'r adroddiad drafft.

## 6. Camau Gweithredu

**Mae'r swyddogion perthnasol wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Unwaith yn weithredol, cynnal gwiriadau a chysoni data i sicrhau fod y wybodaeth ar systemau 'Synergy' a 'Bromcom' yn gywir ac yn gyfredol, gan drefnu i gywiro unrhyw ddiffygion yn brydlon.**

Atodiad 2

# DILYNIANT CLYBIAU BRECWAST

## 1 Cefndir

1.1 Cynhaliwyd Archwiliad Mewnol Clybiau Brecwast fel rhan o gynllun 2024/25, er mwyn sicrhau fod trefniadau priodol mewn lle ar gyfer cynnal clybiau brecwast, yn ogystal â gweinyddu incwm o'r elfen gofal yn ystod y sesiynau.

## 2 Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod y gweithrediadau cytunedig yn deillio o'r archwiliad llawn ddiweddaraf wedi eu gweithredu yn amserol i liniaru'r risgiau a adnabuwyd. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio cofnodion a dogfennaeth gefnogol, yn ogystal â chynnal ymweliadau safle.

## 3 Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **CYFYNGEDIG** | **Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.** |

## 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| **UCHEL IAWN** | 0 |
| **UCHEL** | 2 |
| **CANOLIG** | 4 |
| **ISEL** | 0 |

## 5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 O'r 10 gweithrediad a gytunwyd o'r archwiliad gwreiddiol, gwelwyd fod 6 wedi eu gweithredu, adroddir y casgliadau isod. O ganlyniad, cyflwynir cynllun gweithredu cytunedig diwygiedig ynghlwm â'r adroddiad hwn.

5.2 Fel yn yr archwiliad llawn, ymwelwyd â chlybiau brecwast ysgolion Waunfawr, Gwaun Gyfni, a Dolbadarn i gynnal y dilyniant. Ar gyfer y 3 ysgol, roedd cofnodion mewn perthynas â phlant gydag alergeddau yn amrywio o ddogfen i ddogfen, h.y. fod cofnodion y gegin yn anghytuno gyda chofnodion y Tîm Arlwyo, yn ei wneud yn anodd adnabod pob plentyn gydag alergedd. Nid yn unig roedd yr enwau yn anghytuno, ond hefyd y math o fwydydd roedd y plentyn ag alergedd iddo.

Ar un achlysur, gwelwyd fod yr ysgol wedi darparu dogfennaeth mewn perthynas â disgybl gydag alergedd, ond nad oedd y gegin wedi gweithredu gan nad oedd unrhyw dystiolaeth feddygol gefnogol. Yn ogystal, gwelwyd nad oedd 2 o'r 3 ysgol yn arddangos lluniau o blant gydag alergeddau ar wal y gegin, fel nodwyd yn y Polisi Alergeddau. Wrth drafod gyda Rheolwr Gwasanaeth Arlwyo a Glanhau Addysg, darganfuwyd fod y Rheolwr blaenorol wedi derbyn arweiniad gan Dîm Diogelu Data i beidio arddangos lluniau o'r plant, ond nad oedd y polisi wedi ei ddiweddaru i adlewyrchu hynny. Cydnabuwyd fod y polisi yn gymhleth, a pheth o'r cynnwys yn amherthnasol bellach. Cadarnhawyd fod cyfarfodydd wedi eu cynnal gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn ogystal ag ymholiadau i awdurdodau cyfagos er mwyn llunio polisi newydd, symlach, byddai'n rhoi mwy o bwyslais ar dderbyn tystiolaeth feddygol gefnogol.

5.3 Er nad oedd yr asesiadau risg Alergedd a welwyd yn y Ffolderi Alergedd yn ystod yr ymweliadau yn gyfredol, derbyniwyd copïau, wedi eu hadolygu yn y flwyddyn ddiwethaf, gan Reolwr Gwasanaethau Arlwyo a Glanhau Addysg, ac eglurwyd bod copi papur o'r holl asesiadau risg cyfredol ar gael yn Llawlyfr y Gegin. Nodwyd y byddai ffolderi alergeddau pob ysgol yn cael eu diweddaru gyda'r asesiadau cyfredol cyn gynted â phosibl.

5.4 Mae disgwyl fod offer ar wahân ar gael ar gyfer darparu bwyd i blant gydag alergeddau, h.y. plât, powlen, a chwpan piws. Er amlygwyd yn yr archwiliad llawn nad oedd gan gegin Ysgol Dolbadarn bowlenni piws, gwelwyd fod hynny dal yr achos yn ystod yr ymweliad diweddaraf. Cadarnhawyd fod yr Arweinydd Tîm Arlwyaeth a Glanhau Ysgolion wedi archebu powlenni cyn rhyddhau'r adroddiad drafft. Nodir fod ystyriaeth wedi ei roi i ddarparu teclynnau bwyta ar wahân ar gyfer plant gydag alergeddau, ond fod gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd wedi cadarnhau fod eu sterileiddio yn ddigonol.

5.5 O ran cynnwys y brecwast, mae'n rhaid darparu bwydydd wedi eu gosod gan y Llywodraeth. Mae pedwar categori, a rhaid darparu un opsiwn o bob categori. Y categorïau yw: Diodydd sy'n seiliedig ar laeth neu iogwrt, Grawnfwyd, Ffrwyth a Llysiau, a Bara. Ar adeg yr archwiliad llawn, sudd oedd yn cael ei ddarparu fel yr opsiwn ffrwyth. Ers hynny, mae'r sudd wedi ei ddisodli, gan gynnig diod o ddŵr neu lefrith yn ei le. Gwelwyd fod ysgol Waunfawr gyda phowlen o ffrwythau wedi ei arddangos wrth fynedfa'r gegin, gyda sawl plentyn wedi gofyn am ffrwyth yn ystod y sesiwn. Yn ysgolion Gwaun Gyfni a Dolbadarn, er i'r staff nodi fod ffrwyth ar gael i unrhyw blentyn fyddai'n gofyn, gwelwyd fod y powlenni ffrwyth wedi eu cuddio allan o olwg y plant, a bod safon y ffrwyth yn wael hefyd. Nododd Rheolwr Gwasanaeth Arlwyo a Glanhau Addysg eu bod wedi cael trafferthion gyda chyflenwyr yn ddiweddar, ble nad oedd archebion yn cael eu derbyn yn llawn, a safon y bwyd yn wael.

5.6 Er wedi eu cynnwys mewn ymarferion tân yn yr ysgolion ers yr archwiliad llawn, gwelwyd fod staff y geginau yn parhau heb fynediad i borth E-ddysgu'r Cyngor i gwblhau modiwlau mandadol.

**6. <u>Camau Gweithredu</u>**

**Mae'r swyddogion perthnasol wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Parhau i lunio Polisi Alergeddau newydd, symlach, gan drefnu hyfforddiant i'r holl staff perthnasol ar y cynnwys newydd.**
- **Ystyried defnyddio system Bromcom i gadw cofnodion electronig, i alluogi diweddaru haws.**
- **Trefnu cyfarfod gyda phenaethiaid i ail gyflwyno cynnwys y Polisi Alergedd newydd, gan bwysleisio'r angen i ddarparu gwybodaeth mewn perthynas ag alergeddau yn gywir, ac yn brydlon i'r Tîm Arlwyo.**
- **Sicrhau fod ffolderi Alergeddau pob cegin wedi eu diweddaru gydag asesiadau risg cyfredol.**
- **Adnabod unrhyw ysgolion sydd heb yr offer priodol, gan sicrhau fod archeb yn cael ei drefnu yn syth.**
- **Atgoffa staff ceginau fod angen amlygu a chynnig ffrwyth yn ystod pob sesiwn clwb brecwast, gan fonitro er mwyn addasu archebion yn y dyfodol.**
- **Trefnu fod dyfais electronig ar gael ym mhob cegin i alluogi staff i fewngofnodi i'r Porth E-ddysgu.**

Atodiad 3

## DILYNIANT RHEOLI PROSIECT TRAFNIDIAETH YSGOLION

### 1. Cefndir

1.1 Cynhaliwyd Archwiliad Mewnol Rheoli Prosiect Trafnidiaeth Ysgolion fel rhan o gynllun 2024/25, er mwyn sicrhau bod trefniadau addas mewn lle ar gyfer rheoli a monitro cytundebau gyda chyflenwyr cludiant ysgolion a bod rheolaeth diogelwch cadarn ar gyfer diogelu disgyblion. Fel rhan o'r archwiliad gwreiddiol, gwiriwyd cytundebau ar gyfer sampl o gyflenwyr a sicrhau eu bod yn gyflawn ac yn cwrdd ag anghenion gwasanaeth o dan y Ddeddf Addysg 1996; gwirio'r broses tendro cwmnïau; gwirio trefniadau monitro a rheoli cytundebau a chadarnhau bod gwiriadau DBS yn cael eu cynnal yn brydlon a bod y cyflenwyr yn dilyn polisïau perthnasol y Cyngor, gan gynnwys y Polisi Alcohol a Chyffuriau.

### 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod y gweithrediadau cytunedig yn deillio o'r archwiliad llawn ddiweddaraf wedi eu gweithredu yn amserol i liniaru'r risgiau. Er mwyn cyflawni hyn, bydd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio cofnodion neu ddogfennaeth gefnogol.

### 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| CYFYNGEDIG | **Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.** |

### 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| UCHEL IAWN | 0 |
| UCHEL | 1 |
| CANOLIG | 1 |
| ISEL | 0 |

### 5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Cytunwyd ar 5 cam gweithredu yn yr archwiliad gwreiddiol ym mis Rhagfyr 2024, tri gyda sgôr risg o 15, un gyda sgôr risg o 12, ac un arall efo sgôr risg o 6. Gwelwyd bod y camau wedi cael eu gweithredu yn rhannol ac adroddir ar y casgliadau isod, ond mae gwaith parhaus mewn lle er mwyn diogelu disgyblion ar drafnidiaeth ysgolion.

5.2 Gwelwyd o’r archwiliad mewnol gwreiddiol mai un o’r risgiau i’w liniaru oedd methiant i fonitro a rheoli cytundebau trafnidiaeth ysgolion yn briodol gan gynnwys profi yn erbyn polisi cyffuriau ac alcohol y Cyngor. Gwelwyd dystiolaeth bod y tîm Cludiant wedi cysylltu gyda’r gweithredwyr i wirio os yw profion alcohol a chyffuriau yn cael eu cynnal ac o’r enghreifftiau o ymatebion a dderbyniwyd nid oes sicrwydd bod profion yn cymryd lle gan pob cyflenwr. Yn ogystal, fe gadarnhaodd y Rheolwr Cludiant pe byddant yn derbyn honiad am yrrwr o dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau, byddant yn cysylltu gyda’r Heddlu ac yn ymweld a phrofi drwy ymgysylltu gyda’r Gwasanaethau Corfforaethol, ond bod digwyddiadau fel hyn yn brin iawn

5.3 Pan gynhaliwyd yr archwiliad gwreiddiol, nid oedd gan 5 allan o’r 12 cyflenwyr yn y sampl unrhyw asesiad risg mewnol ar gael, er ei fod yn ofyniad i’r cyflenwyr ddarparu asesiad risg eu hunain wrth dderbyn cytundeb gyda'r Cyngor. Fe wiriwyd yr un sampl am yr ail waith, ac nid oedd 2/12 o’r asesiadau ar gael. Nid oedd y ddau gyflenwr yn gweithredu contractau ysgolion bellach, ac felly ddim angen darparu asesiad risg

5.4 Nid oedd yr Adran yn gallu monitro cydymffurfiaeth â’r cytundebau yn rheolaidd ar adeg yr archwiliad gwreiddiol oherwydd diffyg adnoddau, ac felly yn cynnal gwiriadau ar sail cwynion a dderbyniwyd yn unig. Nid oedd tystiolaeth gefnogol glir o’r gwiriadau hyn ar gael yn ystod yr archwiliad. Cadarnhaodd y Rheolwr Cludiant bod trefn newydd wedi ei sefydlu gyda’r gwasanaeth Trwyddedu i fynd allan i’r ysgolion i wneud gwiriadau tymhorol. Derbyniwyd copi o’r daenlen monitro a gwelwyd bod rhywfaint o waith monitro wedi ei gynnal yn ystod misoedd Medi, Hydref a Thachwedd 2025, ond bod bylchau gwag yn y daenlen a ni welwyd unrhyw dystiolaeth drylwyr ar eu cyfer.

5.5 Un o’r camau gweithredu o’r archwiliad gwreiddiol oedd symud i system DBS y Cyngor er mwyn cadw manylion DBS cyfredol a chynnal gwiriadau. Erbyn hyn, gwelwyd bod y gwasanaeth wedi symud o ddefnyddio ffurflenni papur i ddefnyddio system DBS y Cyngor. Er hynny, mae’r gwasanaeth yn parhau i orfod cadw taenlen Excel o’r DBS, ond bod y gwasanaeth TG yn ymchwilio i mewn i hwyluso hyn. Mae gyrwyr bws yn derbyn cerdyn adnabod unwaith maent wedi cwblhau’r broses o gael gwiriad DBS. Cadarnhaodd y tîm Cludiant fel rhan o’r cyd-weithio gyda’r adran Addysg, mae’n fwriad codi ymwybyddiaeth gyffredinol rhanddeiliaid (staff ysgolion, rhieni/gwarchodwyr, ayyb) fod angen i’r rhai sydd yn darparu gwasanaethau cludiant addysg ar ran y Cyngor dderbyn a gwisgo cerdyn adnabod, ac os oes unrhyw bryderon yn hyn bydd angen iddynt gysylltu â’r Uned Gludiant Integredig er mwyn iddynt gynnal ymchwiliad.

5.6 Nid oedd y Polisi Cludiant Addysg yn gyfredol ar wefan y Cyngor ar adeg yr archwiliad. Cafodd Polisi diwygiedig ei gyflwyno i'r Cabinet mis Ionawr 2026 er mwyn derbyn caniatâd i gynnal ymgynghoriad mis Chwefror neu Mawrth 2026. Bydd canlyniadau’r ymgynghoriad yn mynd ger bron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi mis Mehefin 2026. Erbyn Hydref 2026, disgwylir i’r Polisi Cludiant Addysg diwygiedig gael ei gyhoeddi ac yn weithredol erbyn Medi 2027.

6. **<u>Camau Gweithredu</u>**

**Mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Cysylltu gyda'r gweithredwyr o bryd i'w gilydd i wirio os yw profion alcohol a chyffuriau yn cael eu cynnal.**
- **Defnyddio'r system pwyntiau gweithredu i gosbi cwmnïoedd sydd ddim yn anfon y dogfennau.**
- **Parhau i fonitro a rheoli cytundebau trafnidiaeth ysgolion yn rheolaidd a sicrhau bod cofnodion trylwyr yn cael eu cadw.**
- **Sicrhau bod Polisi Cludiant Addysg yn cael ei roi ar wefan y Cyngor unwaith y caiff ei gymeradwyo, ac adolygu'r linciau sydd ar y wefan Gorfforaethol er mwyn sicrhau bod y fersiwn cyfredol o'r polisi wedi ei gynnwys.**

Atodiad 4

# RHEOLAETH ADEILADU

## 1. Cefndir

1.1 Prif bwrpas Rheoliadau Adeiladu yw sicrhau safonau rhesymol o iechyd a diogelwch ar gyfer pobl mewn, neu o amgylch adeiladau, cadwraeth ynni a mynediad a chyfleusterau i bobl ag anableddau.

1.2 Bydd angen caniatâd Rheolaeth Adeiladu ar gyfer y rhan fwyaf o waith adeiladu, gan gynnwys codi adeilad newydd, ailgodi adeilad presennol, estyniad neu addasiadau i adeilad, gosod ffenestri, addasiadau strwythurol, gosod cyfarpar sy'n cynhyrchu gwres, addasiadau i system ddraeniad adeilad, ategwaith i'r sylfeini, gosod a gwneud addasiadau i'r rhan fwyaf o gylchedau trydanol mewn tai ac addasiadau i fathau penodol o 'elfennau thermol'.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod gan y gwasanaeth drefniadau cadarn ar waith i gydymffurfio â'r gofynion statudol. I gyflawni hyn, roedd yr archwiliad gwreiddiol yn cynnwys adolygu hyfforddiant staff, archwilio sampl o geisiadau i wirio cydymffurfiaeth â'r safonau, asesu'r broses gwneud penderfyniadau, a gwirio cywirdeb y ffioedd a godir.

2.2 Fodd bynnag, rhoddwyd dibyniaeth ar ddarganfyddiadau archwiliad mewnol tebyg corff proffesiynol Rheoli Adeiladu Awdurdodau Lleol (LABC) gynhaliwyd fis Ebrill 2025 fel rhan o ofyniad ISO 9001 er mwyn arbed ail-adrodd profion archwilio.

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **DIGONOL** | **Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.** |

## 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| UCHEL IAWN | 0 |
| UCHEL | 0 |
| CANOLIG | 1 |
| ISEL | 0 |

**5. Prif Ddarganfyddiadau**

5.1 Darganfuwyd bod y gwasanaeth Rheolaeth Adeiladu wedi derbyn archwiliad mewnol gan gorff proffesiynol LABC fis Ebrill 2025 fel rhan o ofyniad ISO 9001. Derbyniwyd copi o'r adroddiad a oedd yn cwmpasu ystod eang o feysydd, gan gynnwys cydymffurfiaeth â gofynion rheoleiddiol, rheoli risg, gweithrediad y systemau, cadw a rheoli cofnodion, y broses i ddelio â chwynion, cymhwysedd staff, archwiliadau safle, dangosyddion perfformiad allweddol, asesiad o'r broses gwneud penderfyniadau, a gwirio sampl o geisiadau, tystysgrifau cwblhau a hysbysiadau cychwynnol.

5.2 Gan fod y profion a gynhaliwyd gan LABC yn gweddu'n agos iawn i gwmpas yr archwiliad mewnol, ac wedi ei gynnal gan arolygwyr proffesiynol, penderfynwyd peidio ag ail gynnal y profion yma ac i ganolbwyntio ar ddarganfyddiadau a chasgliadau'r adroddiad LABC, sy'n cynnwys argymhellion a gwelliannau arfaethedig. Gwelwyd bod yr adroddiad yn gadarnhaol, ond bod tri cyfle i wella wedi ei nodi a tri diffyg cydymffurfiaeth, ynghyd â chamau gweithredu penodol i liniaru'r risgiau hyn i'w gyflawni erbyn mis Gorffennaf 2025.

5.3 Roedd y gwelliannau a nodwyd yn cynnwys yr angen i adolygu a mabwysiadu'r Cynllun Trin Risg, yn ogystal â'i rannu gyda'r staff perthnasol i sicrhau ymwybyddiaeth lawn a chydymffurfiaeth ar draws y gwasanaeth. Argymhellwyd hefyd yr angen i'r gwasanaeth gyflwyno hyfforddiant ymsefydlu penodol ar Reoli Adeiladau ar gyfer staff newydd, fel bod trefniadau cyson ar waith ar gyfer datblygu cymhwysedd. Yn ogystal, dylid adolygu'r dull o gynllunio arolygu i benderfynu a oes angen dull mwy penodol sy'n seiliedig ar risg gan nad oes unrhyw broses ffurfiol i gyfathrebu'r cynllun gyda'r cleient.

5.4 Nododd yr adroddiad fod tri achos o ddiffyg cydymffurfiad, sef: diffyg proses ffurfiol wedi'i sefydlu ar gyfer cynnal asesiad perfformiad blynyddol, fel sy'n ofynnol gan LABC; diffyg trefn strwythuredig ar gyfer cofnodi a rheoli gwrthdaro buddiannau; ac absenoldeb profforma safonol ar gyfer gwiriadau cynlluniau, sy'n hanfodol er mwyn sicrhau cysondeb a thryloywder yn y broses.

5.5 Holwyd y Rheolwr Gwasanaeth Rheolaeth Adeiladu ynghylch statws y camau cywirol neu ataliol, a chadarnhaodd eu bod wedi'u gweithredu yn rhannol hyd yma. Derbyniwyd tystiolaeth briodol ar gyfer cynnydd y tri achos o ddiffyg cydymffurfiad, yn ogystal ag un o'r gwelliannau. Mae pecyn gwybodaeth newydd ar gyfer cleientiaid wedi'i greu ac yn cael ei ddosbarthu pan fydd ceisiadau'n cael eu cofrestru. Mae'n hysbysebu'r cwsmer pryd y dylent gysylltu â'r gwasanaeth ac yn darparu gwybodaeth glir am y broses adeiladu. Crëwyd dogfen gofnodi gwrthdaro ym mis Chwefror 2026; fodd bynnag, nid yw wedi'i gwblhau gan y staff hyd yma, gan fod angen trafodaethau a hyfforddiant ychwanegol yn gyntaf. Mae profforma ar gyfer gwiriadau cynlluniau hefyd wedi ei greu, er mwyn i'r holl staff ei gwblhau a'u cadw ar ffeil wrth gynnal gwiriadau ond mae angen hyfforddiant a thrafodaethau pellach cyn y gellir ei ddefnyddio'n ymarferol. Mae'r gwasanaeth hefyd wedi dechrau cynnal gwerthusiad staff blynyddol fel rhan o'r asesiadau perfformiad blynyddol.

5.6 Mae dau o’r gwelliannau yn parhau i fod angen sylw. Nid oedd y Cynllun Trin Risg wedi cael ei adolygu a’i fabwysiadu a nid oedd y gwasanaeth wedi cyflwyno hyfforddiant i staff newydd. Nododd mai prinder adnoddau gweinyddol yw’r prif reswm dros y diffyg cynnydd, ond eglurodd y bydd y gwasanaeth yn gweithio ar y eitemau hyn gyda’r bwriad o’u cwblhau cyn diwedd y flwyddyn.

5.7 Er gwaethaf peidio cwblhau gweithredu ar yr holl newidiadau, roedd y LABC o’r farn gyffredinol bod y Gwasanaeth Rheoli Adeiladu yn gweithredu’n effeithiol, gydag arbenigedd technegol cryf, ymgysylltiad cadarn â chontractwyr, a gwelliannau parhaus i brosesau. O ganlyniad, penderfynwyd ail-ymweld a’r maes Rheolaeth Adeiladu yn ystod blwyddyn ariannol 2026/27 er mwyn cynnal archwiliad pellach.

## 6. <u>Camau Gweithredu</u>

**Mae’r gwasanaeth wedi ymrwymo i weithredu’r camau canlynol i liniaru’r risgiau a amlygwyd:**

- **Gweithredu ar y ddau gyfle i wella sydd wedi ei nodi yn yr adroddiad LABC sy’n cynnwys**
    - **Adolygu a mabwysiadu'r Cynllun Trin Risg a’i rannu gyda staff perthnasol.**
    - **Cyflwyno hyfforddiant ymsefydlu penodol ar Reoli Adeiladau ar gyfer staff newydd.**

Atodiad 5

**RHEOLI GWYBODAETH A DIOGELU DATA**

**1. Cefndir**

Mae Erthygl 4 Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu'r Data'r DU (GDPR) yn manylu beth yw prosesu data sydd yn cynnwys unrhyw weithred neu set o weithrediadau ar ddata personol. Mae'n ofynnol prosesu data personol yn gyfreithlon ac er sicrhau bod data yn cael ei brosesu'n gyfreithiol, mae'r Cyngor angen cadarnhau eu bod yn gallu adnabod a dangos y sylfaen gyfreithiol ar gyfer pob gweithred, sefydlu prosesau a pholisïau a sicrhau cydymffurfiaeth a chadw cofnodion gweithredadwy o brosesau 'gyda manylion llawn'. Ble mae'r Cyngor yn prosesu data drwy drydydd parti yna mae angen cytundeb mewn lle i sicrhau bod y ddau barti fel 'data controller' a 'data prossesor' yn cydymffurfio â dyletswydd gyfreithiol GDPR.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle i reoli gwybodaeth a diogelu data personol sydd yn cael ei gasglu a'i rannu â 3ydd parti er mwyn galluogi prosesu'r data. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio polisïau a gweithdrefnau prosesu a rhannu data personol y Cyngor a sicrhau eu bod yn cydymfurfio â Rheoliadau Diogleu Data y DU.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **CYFYNGEDIG** | **Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.** |

**4. Sgôr Risg Cyfredol**

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| **UCHEL IAWN** | 0 |
| **UCHEL** | 1 |
| **CANOLIG** | 3 |
| **ISEL** | 0 |

**5. Darganfyddiadau**

5.1 Meddiannwyd polisi a gweithdrefn sydd mewn lle a gwelwyd bod polisi a hyfforddiant Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) yn fandadol. Yn ogystal cadarnhawyd bod cyrsiau 'refreshers' Diogelu Data wedi'u trefnu ar gyfer 2026 wyneb yn wyneb, yn cynnwys penderfyniadau ar gyfer rhannu data a pryd mae'n addas i wneud hynny.

5.2 Derbyniwyd rhestr o berchenogion systemau'r Cyngor gan yr Uwch Swyddog Statudol Diogelu Gwybodaeth. Gwelwyd bod y gofrestr wedi'i sefydlu yn 2023 a'i diweddaru ers hynny. Detholwyd sampl o systemau craidd ar draws y Cyngor i gadarnhau bod y rhestr yn gyflawn a chyfredol. Yn ogystal, meddiannwyd rhestr gan y Gwasanaeth Caffael o gyflenwyr oddi ar y cyfriflyfr a dalwyd mwyaf i gadarnhau os oedd prosesau a chytundeb prosesu data yn bodoli tu hwnt i'r rhestr o berchenogion systemau. Mae gan y Cyngor gytundeb WASPI ('Wales Accord on the Sharing of Personal Information') ac yn rhannu gwybodaeth o dan y 'multi agency data sharing protocol' gydag awdurdodau eraill sydd yn ymwneud ag iechyd, addysg, diogelu, atal trosedd a lles cymdeithasol sydd yn caniatáu rhannu data yn ddiogel mewn cydymffurfiaeth â GDPR DU.

5.3 O'r gofrestr o berchenogion systemau'r Cyngor a dderbyniwyd gan yr Uwch Swyddog Statudol Diogelu Gwybodaeth, gwelwyd allan o 30 o systemau a wiriwyd, derbyniwyd ymateb ar gyfer 28 o'r systemau. Darganfuwyd o'r 28 nad yw 4 o'r systemau yn bodoli bellach. Ymddengys bod yn cymysgfa sydd yn prosesu data a'r gweddill gyda chytundebau trwydded yn unig gyda'r trydydd parti, ac adroddwyd bod 2 o'r systemau yn dod i ben o fewn y flwyddyn ariannol nesaf (WCCIS & Cyborg).

5.4 O ganlyniad, holiwyd os oedd rhestr ganolog o systemau gan TG i gefnogi'r rhestr a dderbyniwyd gan yr Uwch Swyddog Statudol Diogelu Gwybodaeth ar gyfer adnabod systemau mewnol, cytundebau dyddiad adolygu/adnewyddu ac eithriadau all olygu eu bod yn prosesu data gyda thrydydd parti/tu hwnt i'r Cyngor. Fodd bynnag, darganfuwyd nad oes rhestr yn bodoli, gan gynnwys cynllun ar gyfer adnabod blaenoriaeth adfer systemau craidd y Cyngor mewn sefyllfa argyfwng.

5.5 Gwelwyd bod gan y Cyngor dempled pwrpasol sydd yn gosod telerau'r Cyngor i gontractwyr fel y prosesydd data i'w arwyddo sydd yn nodi sut maent eisiau i'r data cael ei drin. O'r sampl o systemau a ddetholwyd i wirio, ymddengys bod 17 o systemau yn prosesu data, a'r gweddill gyda chytundeb trwydded a/neu system gefnogaeth. Er ymddengys bod 17 yn prosesu data, derbyniwyd cytundeb ffurfiol ar gyfer 8 yn unig gyda'r gweddill (9) wedi darparu datganiad preifatrwydd y cwmnïau. Allan o'r cytundebau prosesu data ond 3 roedd wedi defnyddio templed y Cyngor a'r gweddill wedi defnyddio templed cytundeb y prosesydd. Meddiannwyd y cytundebau i wirio os ydynt yn ddigonol i sicrhau cydymffurfiaeth ag erthygl 28 GDPR y DU.

5.6 Ar gyfer 7 o'r systemau oedd â chytundebau trwydded a neu gefnogaeth yn unig, mynegodd yr Uwch Swyddog Statudol Diogelu Gwybodaeth, er hynny, dylai bod yr holl systemau gan gynnwys rhai mewnol ond gyda chefnogaeth allanol gyda chytundeb prosesu data mewn lle.

5.7 Yn ychwanegol i hyn, gwiriwyd y cytundebau er mwyn gwirio beth yw cyfrifoldebau ynglŷn â seibr ddiogelwch a sicrwydd o ran 'supply chain attacks'. Yn ôl y rheoliadau, erthygl 32, er bod y data yn cael ei brosesu gan gwmni allanol, mae'r Cyngor yn gyfrifol am y data ac felly gofynnir i'r prosesydd cymryd mesuriadau i ddiogelu data yn erbyn ymosodiadau seibr diogelwch. Gwelwyd nad oedd pob cytundeb yn amodi unrhyw drefniadau gwarchod yn erbyn ymosodiadau diogelu seibr.

5.8 Fel rhan o'r archwiliad gwiriwyd cydymffurfiaeth ag erthygl 35 GDPR DU drwy holi am yr asesiad effaith diogelu data (DPIA) ar gyfer y prosiectau/ prosesau newydd a sefydlwyd. Gwelwyd nad oedd pob prosiect a ddetholwyd angen cynnal asesiad effaith, mae hyn yn ddibynnol ar y risg a'r math o ddata sydd yn cael ei brosesu. O'r rhain oedd yn ymddangos yn prosesu data personol, cadarnhawyd bod 5 DPIA ar gael allan o bosib 15.

5.9 Gwiriwyd trefniadau caffael cyflenwyr i sicrhau bod trefniadau cynnal gwiriadau 'due diligence' priodol mewn lle fel y 'data controller'. Mae'r trefniadau caffael cyfredol yn sicrhau bod amodau a chwestiynau penodol rhaid i'r cyflenwyr gwrdd wrth gyflwyno tendr ond yn y pendraw mae'r gwiriadau yn gyfrifoldeb y sawl sydd yn caffael. Ni dderbyniwyd unrhyw dystiolaeth bod gwiriadau wedi'u cynnal/cadw.

5.10 Yn ogystal, o'r sampl o'r cytundebau a dderbyniwyd, gwiriwyd os oedd cymal hawl archwilio/mesur perfformiad mewn lle ble all y Cyngor medru derbyn/meddiannu sicrwydd bod y prosesydd wedi gweithredu'r mesurau priodol neu'n cydymffurfio â thelerau'r contract, neu'r ddau. Gwelwyd bod rhan fwyaf o'r rhain yn cynnwys amodau ond nid oedd modd cadarnhau eu bod yn weithredol sydd yn golygu nad oes gwarantu bod y gweithgareddau'n cydymffurfio â erthyglau 28, 32, a 5(2) o GDPR y DU

## 6. <u>Camau Gweithredu</u>

**Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth wedi ymrwymo i gydlynu/weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd::**

- **Darparu hyfforddiant arbenigol ar gyfer codi ymwybyddiaeth DPIA a chytundebau prosesu data gan gynnwys yr angen i ddefnyddio templed prosesu data'r Cyngor, ble'n berthnasol.**
- **Tîm Rheoli Gwybodaeth a Gwasanaeth TG i gydlynu gyda gwasanaethau eraill i adnabod un gofrestr ganolog o weithgareddau prosesu data.**
- **Adolygu'r cwestiynau amodol prosesau/trefniadau caffael er mwyn sicrhau eu bod yn ddigonol ar gyfer diogelu data'r Cyngor.**
- **Cyflwyno cyfarwyddiadau i adrannau i gymryd perchenogaeth o'u data drwy ddarparu mynediad iddynt i'r wybodaeth er mwyn iddynt allu diweddaru unrhyw newidiadau ar y rhestr ganolog fel bo angen.**
- **Ystyried cynnal sampl o wiriadau i'r rhestr yn rheolaidd i gadarnhau ei berthnasedd.**

Atodiad 6

## HYFFORDDIANT MANDADOL

## 1. Cefndir

1.1 Mae 8 teitlau hyfforddiant mandadol (Diogelu Data, Diogelu, Cydraddoldeb, Ymwybyddiaeth Iaith, Trais yn Erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, Atal, Iechyd a Diogelwch a Rhyddid Gwybodaeth) gan y Cyngor ar hyn o bryd, ble y disgwylir i bob aelod o staff eu cwblhau.

1.2 Mae modd cwblhau hyfforddiant drwy gwblhau e-fodiwl. Yn dibynnu ar ofynion yr hyfforddiant gellir eu cwblhau wyneb yn wyneb mewn eithriadau. Mae'r e-fodiwlau ar gael ar y Porth e-ddysgu ac mae pob swyddog â hawl mynediad i'r modiwlau sydd yn defnyddio rhif cyflog fel manylion adnabod defnyddiwr.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle i sicrhau bod swyddogion yn cwblhau hyfforddiant mandadol. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio ystadegau cwblhau hyfforddiant mandadol, argaeledd hyfforddiant mandadol a chynlluniau'r Cyngor ar gyfer sicrhau bod hyfforddiant mandadol yn cael ei gwblhau gan swyddogion y Cyngor yn brydlon

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| DIGONOL | **Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.** |

## 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| UCHEL IAWN | 0 |
| UCHEL | 0 |
| CANOLIG | 7 |
| ISEL | 0 |

**5. Prif Ddarganfyddiadau**

5.1 Darganfuwyd bod hyfforddiant mandadol ar gael ar ffurf e-fodiwlau, ond mae rhai sesiynau hyfforddiant ar gael drwy MoDS (Hunanwasanaeth), sy'n cynnwys sesiynau wyneb yn wyneb neu e-fodiwlau mwy cynhwysfawr.

5.2 Mynegodd y Swyddog E-ddysgu bod y Gwasanaeth Dysgu a Datblygu yn cefnogi'r adrannau drwy greu adroddiad o ystadegau cwblhau hyfforddiant Diogelu i adrodd i'r Grŵp Gweithredol Diogelu. Mae'r Swyddogion Dynodedig Diogelu o fewn y Grŵp Gweithredol Diogelu yn gyfrifol am raeadru rhestrau o unigolion sydd heb gwblhau'r tri modiwl mandadol o dan ymbarél Diogelu sef Atal, Diogelu, a Thrais yn erbyn Menywod fel eu bod yn cael eu cwblhau.

5.3 Yn ogystal â hyn, penodwyd swyddog pwrpasol yn Nhachwedd 2025 ar gyfer cefnogi'r gwasanaethau drwy ymweld â safleoedd rheng flaen er mwyn cynorthwyo staff i gwblhau'r hyfforddiant Diogelu.

5.4 Mae'r Swyddog E-ddysgu yn monitro ystadegau cwblhau hyfforddiant drwy ddashfwrdd Power BI. Mae'n dangos data clir ar gyfer pob Teitl Mandadol, gan gynnwys niferoedd a chanrannau ar gyfer y Cyngor yn gyffredinol ac ar gyfer pob Adran unigol. Mae hefyd modd creu rhestr o unigolion sydd heb gwblhau'r hyfforddiant, wedi'i rannu fesul Adran neu Wasanaeth. Mae'r data yma ar gael i Benaethiaid a Rheolwyr ar gais ar sail ad-hoc, neu mae modd creu mynediad iddynt i'r dashfwrdd. Mae ystadegau hyfforddiant mandadol Diogelu a Cham-drin Domestig yn derbyn sylw yn y cyfarfodydd herio perfformiad erbyn hyn a bod bwriad i ymestyn hyn ar gyfer yr holl hyfforddiant mandadol yn y dyfodol.

5.5 Mae'r Cyngor yn cydnabod bod diffyg yn niferoedd swyddogion rheng flaen sydd yn cwblhau'r hyfforddiant mandadol, gyda'r tebygolrwydd bod y niferoedd yn isel oherwydd diffyg mynediad at gyfrifiadur yn ystod oriau gwaith. Er bod mynediad at yr hyfforddiant yn cael ei gynnal drwy ddefnyddio rhif cyflog, adroddwyd bod llawer yn parhau heb gyfeiriad e-bost fel bod modd cofnodi'r hyfforddiant hynny, all olygu bod y cofnodion/ystadegau sydd yn cael eu cadw ddim yn gyflawn/gyfredol. Fel ymateb, mae'r Is-grŵp Digidol o dan Gynllun Digidol Gwynedd yn gweithio ar ymestyn darpariaeth offer digidol, yn enwedig i'r staff rheng flaen.

5.6 Gwelwyd bod Hwb Dysgu a Datblygu ar y fewnrwyd sydd yn cynnwys gwybodaeth ar hyfforddiant mandadol a gwelwyd bod llawlyfr Dysgu a Datblygu yn nodi 'Mae'r gofyn i gwblhau'r teitlau Mandadol uchod yn rhan o gytundeb gwaith pob un ohonom fel aelodau staff Cyngor Gwynedd. Gallwch wirio os ydych wedi cwblhau Teitl Mandadol trwy fynd i Fy Rhaglen Dysgu yn Fy Nghyflogaeth yn yr Hunan wasanaeth. Bydd y cofnod yn cael ei diweddaru'n wythnosol. Mi fydd adroddiadau cofnod cwblhau yn cael ei gynhyrchu i wahanol wasanaethau yn ôl yr ofyn. Yn ogystal gall Rheolwyr gweld cofnod eu Staff ar yr Hunan wasanaeth'. Er hynny, ni welwyd cyfarwyddiadau clir yn nodi cyfrifoldebau ac atebolrwydd ar gyfer monitro gweithrediad hyfforddiant mandadol mewn lle. Yn ogystal, nid yw pob swyddog â mynediad at gyfrifiadur i allu gwirio yn rhwydd eu Rhaglen Dysgu a Datblygu.

5.7 Oherwydd diffyg teclynnau a ffyrdd i gyfathrebu â staff rheng flaen, dibynnir yn llwyr ar reolwyr i weithredu camau a chyfarwyddo staff am hyfforddiant mandadol yn unol â chanllawiau Cefnogaeth i Weithwyr Rheng Flaen, Teitlau Mandadol. O’r sampl o staff a wiriwyd o System Swyddi Gwynedd, ymddengys bod 33% heb gwblhau hyfforddiant mandadol a’r staff hynny mewn swyddi heb gyfrifiaduron /ar y rheng flaen.

5.8 Gwiriwyd sampl o 50 hyfforddiant staff a gwelwyd bod 13/50 heb gofnod hyfforddiant yn erbyn eu henwau ac ymddengys mai gweithwyr rheng flaen neu ddim ar ddyletswyddau gyda chyfrifiaduron megis cymhorthyddïon cegin, gofalwyr a glanhawyr oedd y rhain. Roedd 22 heb gwblhau hyfforddiant mandadol gyda dros 80% o’r rhain yn weithwyr rheng flaen. Roedd y gweddill, 15 oedd wedi’i gwblhau yn gymysgedd o weithwyr swyddfeydd a rheng flaen ac yn debygol yn rhinwedd eu swydd bod ganddynt fynediad at gyfrifiadur.

5.9 Dengys bod cyflwyniad i’r rhaglen dysgu a hyfforddiant mandadol yn ran o gyflwyniad staff newydd ac yn y pecyn cyfnod croeso i staff newydd. Fodd bynnag, adroddodd y Gwasanaeth Dysgu a Datblygu bod trefniadau cyflwyno staff newydd yn anghyson ar draws y Cyngor ac felly nid ydynt yn sicr os yw pob staff newydd yn derbyn cyflwyniad llawn ac yn ymwybodol am yr angen i gwblhau’r hyfforddiant mandadol fel rhan o’u cyfnod prawf, gyda rhai swyddogion yn bell yn eu gyrfa cyn cwblhau hyfforddiant teitlau mandadol.

5.10 Mae tair system weithredol gan Dysgu a Datblygu ar gyfer cofnodi hyfforddiant i staff. Mae Porth E- ddysgu yn cynnwys yr hyfforddiant e-fodiwlau i staff tra bod y Ganolfan Polisi sydd yn system ar wahân gyda chofnod o bolisïau’r Cyngor i gyd. Mynegodd y Swyddog E-ddysgu bod y data o’r systemau yma yn cael eu llwytho i’r system Hunanwasanaeth MoDS yn wythnosol sydd yn creu’r ystadegau monitro. Oherwydd bod hyfforddiant a pholisïau’r Cyngor yn gweithredu ar wahanol systemau, gall achosi cymhlethdod i staff gadw trefn ar e u cynnydd ac adnabod hyfforddiant sydd heb ei gwblhau.

5.11 Gofynnwyd a oedd y systemau yn anfon nodiadau atgoffa ar gyfer targedu swyddogion sydd angen cwblhau hyfforddiant, darllen polisi newydd neu adnewyddu hyfforddiant a derbyniwyd ymateb bod y system a gafaelwyd yn un sylfaenol ac felly nid yw’r nodiadau atgoffa yn rhan o’r pecyn cyfredol oni bai bod penderfyniad i uwchraddio’r pecyn ar gost ychwanegol i’r Cyngor. Fodd bynnag, gyda Llywodraeth Cymru yn darparu canllawiau statudol ar hyfforddiant diogelu drwy’r Safonau Hyfforddiant, Dysgu a Datblygu Diogelu a’r Gweithdrefnau Diogelu Cymru, sy’n seiliedig ar y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae gofyniad am adfywio hyfforddiant Diogelu i “Grŵp A” pob 3 mlynedd. Golyga hyn y bydd angen ffyrdd i adnabod dyddiadau adnewyddu’r hyfforddiant ynghyd â modd i atgoffa staff o’r dyddiad daw'r hyfforddiant i ben. Adroddodd Arweinydd Talent a Phrentisiaethau eu bod yn ystyried system a bod bid am fwy o arian i uwchraddio’r system bresennol. Mynegodd y Rheolwr Dysgu a Datblygu'r Sefydliad bydd gwell dealltwriaeth o’r opsiynau pan fydd gwell dealltwriaeth o’r system i-Trent newydd.

5.12 Cwestiynwyd os oedd y rhestr o deitlau hyfforddiant mandadol wedi'i ddyddio bellach a bod angen cynnwys hyfforddiant diweddar megis Diogelwch Seibr ac Adnabod Twyll sydd yn cwrdd ag egwyddorion y Cyngor. Adroddwyd bod y Cyngor gyda Panel Dysgu a Datblygu sydd yn cyfarfod 2 waith y flwyddyn. Eglurodd yr Arweinydd Talent a Phrentisiaethau bod haenau ar gyfer penderfynu ar deitlau mandadol. Mae teitlau mandadol fel arfer yn cefnogi yr hyn mae'r cyngor angen ei gwblhau i gwrdd â dyletswyddau cyfreithiol, gan ddilyn hyfforddiant craidd ac yna hyfforddiant ar gyfer datblygu yn y swydd. Cafodd y penderfyniad i gynnwys Rhyddid Gwybodaeth fel hyfforddiant mandadol ei wneud yn y cyfarfod diwethaf yn Mehefin 2025.

**6. <u>Camau Gweithredu</u>**

**Mae Dysgu a Datblygu wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Cyflwyno cyfarwyddiadau ffurfiol a chlir ar gyfer adnabod y sawl sydd yn gyfrifol am fonitro cwblhau hyfforddiant mandadol ac adrodd i'r penaethiaid fel bod modd rhaeadru'r neges drwy linell rheolaeth.**
- **Ystyried uwchraddio'r system bresennol fel bod modd adnabod hyfforddiant mandadol sydd angen ei adnewyddu ac atgoffa staff i gwblhau hyfforddiant sydd heb eu cwblhau/adnewyddu.**
- **Siarad gyda staff Dysgu a Datblygu o gynghorau sydd yn defnyddio'r system iTrent er mwyn deall beth yw'r posibiliadau wrth gyfarch rhai o'r problemau sydd wedi eu hamlygu yn yr adroddiad hwn e.e. gallu atgoffa staff i ddiweddaru yn amserol.**
- **Cynnwys ystadegau cwblhau Hyfforddiant Mandadol fel rhan o fesuriadau cyfarfodydd Herio Perfformiad.**
- **Ystyried monitro ystadegau cwblhau hyfforddiant mandadol yn rheolaidd ac adrodd i Benaethiaid ble mae ystadegau yn isel.**
- **Gweithredu ar y gofyn i swyddogion gwblhau cyrsiau 'refresher' pob 3 mlynedd.**
- **Ystyried y posibilrwydd o ofyn i staff newydd gwblhau'r hyfforddiant mandadol ar ddechrau yn eu swyddi.**
- **Edrych i mewn i drefniadau Croeso gan gael adborth gan y gwahanol adrannau a rhoi trefniadau yn eu lle i geisio cael mwy o gysondeb trefniadau cyflwyno staff newydd ar draws y Cyngor.**

Atodiad 7

**TREFNIADAU TAN**

**1. Cefndir**

1.1 Mae'r Cyngor yn berchen nifer o eiddo, gan gynnwys swyddfeydd, ysgolion, llyfrgelloedd ac amryw o adeiladau eraill, ac mae angen sicrhau bod gweithwyr ac ymwelwyr yn cael eu diogelu o risgiau tân. I'r perwyl yma, mae'n rhaid i'r Cyngor ddilyn Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 (diwygiwyd 2023), sy'n gosod cyfrifoldeb ar y Cyngor i sicrhau bod mesurau diogelwch tân priodol yn yr eiddo, gan gynnwys cynnal asesiadau risg tân a gosod mesurau atal ac amddiffynnol priodol, yn ogystal â darparu gwybodaeth, cyfarwyddiadau ac hyfforddiant.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau rheoli tân y Cyngor yn briodol. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio trefniadau'r Tîm Diogelwch a Chydymffurfiaeth o ymweld, arolygu ac adrodd ar drefniadau tân ar gyfer sampl o eiddo.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **DIGONOL** | **Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.** |

**4. Sgôr Risg Cyfredol**

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| **UCHEL IAWN** | 0 |
| **UCHEL** | 0 |
| **CANOLIG** | 3 |
| **ISEL** | 0 |

**5. Prif Ddarganfyddiadau**

5.1 Gall effaith trefniadau rheoli tân annigonol fod yn ddifrifol, ac i'r perwyl yma mae'n hanfodol bod y Cyngor yn dilyn y Polisi Diogelwch Tân Corfforaethol drwy gydnabod ei gyfrifoldebau fel cyflogwr, ac ymroddi i sicrhau, cyn belled â'i bod yn rhesymol ymarferol, diogelwch ei weithwyr, ynghyd â diogelwch unrhyw berson arall allai gael ei effeithio gan beryglon tân. Mae'r risgiau tân wedi eu cynnwys ar y gofrestr risg corfforaethol.

5.2 Mae rheolwyr safle wedi eu penodi ar gyfer pob eiddo, sy’n gyfrifol am greu a chynnal amgylchedd gwaith diogel dydd i ddydd yn y safle. Bydd Tîm Diogelwch a Chydymffurfiaeth yr adran Tai ac Eiddo yn ymweld â’r safle yn flynyddol i gynnal gwiriadau, adnabod diffygion, trefnu gwaith atgyweirio a rhoi cymorth i’r rheolwr safle. Mae’r Tîm Diogelwch a Chydymffurfiaeth yn dilyn Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 (diwygiwyd 2023), golygai hyn bod rhaid cynnal asesiad risg tân trylwyr ar bob eiddo bob tro mae newid mewn defnydd neu reolwr safle, ac yna cynhelir yr archwiliadau blynyddol.

5.3 Fel rhan o’r archwiliad, detholwyd sampl o 6 eiddo oddi ar restr yswiriant y Cyngor. Roedd y sampl yn cynnwys swyddfeydd o faint gwahanol, Canolfan Ieuenctid, Llyfrgell ac Ysgol Uwchradd. Archwiliwyd cofnodion ymweliadau’r Tîm Diogelwch a Chydymffurfiaeth ar gyfer yr eiddo yma, sy’n cwmpasu amrediad eang o drefniadau rheoli ac atal tân, ynghyd â materion eraill fel legionella ac asbestos.

5.4 Hepgorwyd un eiddo o’r sampl gan mai sefydliad allanol sy’n gwneud defnydd ohono ac yn gyfrifol amdano. Ar amser yr archwiliad, nid oedd cofnod archwiliad un eiddo ar gael, oherwydd bod yr ymweliad wedi digwydd fis Ebrill 2025 a bod yr aelod staff bellach wedi gadael cyn cwblhau’r adroddiad. Mae disgwyl bod adroddiadau yn cael eu cyflwyno o fewn 6 wythnos i’r ymweliad. Ar gyfer tri eiddo arall, gwelwyd bod archwiliadau trylwyr wedi eu cynnal a bod canfyddiadau ac argymhellion wedi eu gwneud. Mae rhai o’r argymhellion yn cynnwys derbyn a chofnodi hyfforddiant tân, trefnu Portable Appliance Testing ar gyfer offer trydanol, clirio offer o lwybrau dianc a gosod rhybuddion gweithdrefn tân yn y mannau priodol. Mae rhai o archwiliadau'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar sefydliadau megis cartrefi preswyl a’r amlosgfa yn cynnwys elfennau rheoli tan, gan amlygu gwendidau megis peidio â chynnal a chofnodi profion offer mor aml â’r disgwyl. Mae’r Tîm Iechyd & Diogelwch Corfforaethol hefyd yn ymweld â eiddo er mwyn gwirio cynnwys eu bocsus glas, sef cofnodion profion tân, cynllun tân yr eiddo ayb.

5.5 Gwelwyd fod rheolwyr safle wedi eu penodi ar gyfer pob eiddo yn y sampl. Mae cwrs Rheoli Safle ar gael sy’n darparu'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i reolwyr i reoli materion iechyd a diogelwch tân, ymysg eraill. Er bod pob rheolwr safle yn y sampl wedi mynychu’r cwrs (heb law un sydd newydd ei benodi), ymddengys o gofnodion hyfforddiant MoDS gall cryn amser fynd heibio cyn mynychu’r cwrs ar ôl eu penodi i’r rôl. Mae cyrsiau adnewyddu bellach ar gael er mwyn diweddaru ac atgoffa rheolwyr o’r trefniadau, ac os nad yw’r rheolwyr wedi gwneud y cwrs adnewyddu o fewn 3 mlynedd, mae’n rhaid iddynt ail wneud y cwrs gwreiddiol.

5.6 Mae e-fodiwl Ymwybyddiaeth Tân ar gael ar y Porth e-Ddysgu, ond gwelwyd bod nifer o’r rheolwyr safle heb ei gwblhau, nac ychwaith wedi darllen y Polisi Diogelwch Tân Corfforaethol. Mae cwblhau'r modiwl a derbyn y polisi yn rhywbeth dylai pob aelod staff ei wneud, ond cydnabyddir bod y cwrs Rheoli Safle yn rhagori’r modiwl e-ddysgu.

5.7 Cyfrifoldeb y Rheolwr Safle yw gweithredu ar argymhellion y Tîm Diogelwch a Chydymffurfiaeth, ond nid oes trefniadau sicrhau gweithrediad hyd yr ymweliad nesaf y flwyddyn ganlynol. Fodd bynnag, mae rhai o'r camau gweithredu yn gyfrifoldeb yr adran Tai ac Eiddo, ac mae'r adran yn dweud eu bod yn blaenoriaethu'r gweithrediadau yma ar sail risg.

5.8 Gwelwyd fod fforymau Iechyd a Diogelwch adrannol yn gyfle da i drafod materion tân, ac mae'r adran Gyllid eisoes wedi trafod, ac yna rhannu e-bost yn annog staff i ddarllen a chwblhau modiwl e-ddysgu Ymwybyddiaeth Tân, ynghyd ac ymrwymo i drafod profion PAT, sydd yn ôl y Weithdrefn Profion Offer Trydanol Cludadwy, yn gyfrifoldeb yr adran, er nid yw'n ymddangos bod hyn yn wybodus i bawb.

5.9 Ar gyfer yr eiddo olaf yn y sampl, sef swyddfeydd Pencadlys, derbyniwyd cofnodion yr archwiliad diwethaf, sef Medi 2023. Does dim archwiliad wedi ei chynnal ers hynny oherwydd y gwaith cyson sydd wedi mynd rhagddo, megis symud swyddfeydd, datblygu'r hen dderbynfa ayb. Fel arfer, bydd hyn yn golygu cynnal asesiad risg tân trylwyr ar yr eiddo ar gyfer pob newid, dro ar ôl tro ond mae'r Tîm Diogelwch a Chydymffurfiaeth wedi penderfynu cyd-weithio a'r tîm swyddfeydd tra bod y gwaith yn mynd yn ei flaen a bwriedir cynnal yr asesiad risg tân yn fuan. Fodd bynnag, mae'r Tîm Iechyd & Diogelwch Corfforaethol o'r farn dylai asesiadau cyfnodol wedi cymryd lle.

5.10 Yn dilyn cyfarfod o'r Fforwm Corfforaethol, amlygwyd diffygion yn nhrefniadau gwagio'r prif swyddfeydd mewn argyfwng tân. Mae'r risg wedi ei gynnwys ar y gofrestr risg corfforaethol, ac yn un o'r gwendidau amlygwyd yn archwiliad 2023. Mae'r risg yn deillio o'r ffaith bod swyddfeydd o'r maint yma angen marsialiaid tân i fod yn gyfrifol am adnabod pwy sy'n bresennol ar y diwrnod, ond mae gweithio'n hybrid yn amharu ar effeithiolrwydd y trefniant cyfredol.

## 6. <u>Camau Gweithredu</u>

**Mae'r Swyddogion wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Rheolwyr Safle newydd i fynychu cwrs Rheoli Safle cyn gynted â phosib, ynghyd a sicrhau eu bod yn mynychu cyrsiau adnewyddu o fewn 3 mlynedd.**
- **Fforymau Iechyd a Diogelwch i geisio annog pawb, yn enwedig Rheolwyr Safle i gwblhau e-fodiwl Ymwybyddiaeth Tân a darllen y Polisi Diogelwch Tân Corfforaethol.**
- **Fforymau Iechyd a Diogelwch adrannol i atgoffa adrannau i drefnu profion PAT.**
- **Cwblhau adroddiadau o fewn 6 wythnos i'r ymweliad.**
- **Uchelu gwendidau difrifol, neu rhai caiff eu hamlygu yn rheolaidd i Reolwr Llinell y Rheolwr Safle.**
- **Cynnal asesiad risg tân ar y Pencadlys.**

Atodiad 8

# DIOGELIADAU AMDDIFADU RHYDDID

## 1. Cefndir

1.1 Mae Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) yn darparu fframwaith cyfreithiol o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 i amddiffyn unigolion nad oes ganddynt alluoedd ac sy'n cael eu hamddifadu o ryddid. Cyflwynwyd y trefniadau diogelu hyn yn 2009 a'u hehangu yn sgil dyfarniad Gorllewin Caer ym Mawrth 2014, a'u nod yw sicrhau bod trefniadau o'r fath yn gyfreithlon ac er lles pennaf yr unigolyn.

1.2 Cyflwynwyd y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid (LPS) yn Neddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019 a bydd yn disodli'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS). Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar Reoliadau drafft i Gymru i gasglu barn rhanddeiliaid ar y dull y bwriedir ei fabwysiadu ar gyfer yr LPS tra ymgynghorodd Llywodraeth y DU ar Reoliadau drafft ar gyfer Lloegr. Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi ymgynghori ar Gôd Ymarfer drafft fydd yn berthnasol i Gymru a Lloegr.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau cynllunio a pharatoi addas mewn lle i ymateb i ofynion newydd y Mesurau Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid ( LPS) a fydd yn disodli'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS), yn ogystal â gwirio os oes trefniadau priodol mewn lle ar gyfer gweithredu ar gyfeiriadau cyfredol DoLS. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu sicrhau bod trefniadau digonol wedi eu sefydlu ar gyfer y gyfundrefn newydd a gwirio sampl o gyfeiriadau DoLS i roi barn ar sicrwydd gweithrediadau.

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **CYFYNGEDIG** | **Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.** |

## 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| **UCHEL IAWN** | 0 |
| **UCHEL** | 1 |
| **CANOLIG** | 2 |
| **ISEL** | 0 |

**5. Prif Ddarganfyddiadau**

5.1 Cynhaliwyd yr archwiliad diwethaf yn 2022 ac adroddwyd 'er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt'. Adnabuwyd y risgiau canlynol yn yr adroddiad archwilio Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid 2022/23:

Risg 1 - Methiant i baratoi ar gyfer y newidiadau diwygiedig gall arwain at y Cyngor i fethu darparu gwasanaeth priodol a diogelu ac amddiffyn unigolion bregus/mewn risg. Cafodd y risg yma ei amlygu ar sail methu i baratoi at newid mewn deddfwriaeth. Nid oedd targed dyddiad Llywodraeth y DU ar gyfer gweithredu'r LPS a'r Ddeddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019 wedi'i gadarnhau bryd hynny. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru yn Ebrill 2023 bod Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi eu bwriad i gamu i ffwrdd o gyflwyno'r LPS a gweithredu Deddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019 (Deddf 2019). Fodd bynnag, rhoddodd Llywodraeth Cymru £8m o gyllid yn 2022/23 i gefnogi'r paratoadau ar gyfer yr LPS. Gan nad oedd y rheoliadau a'r Cod Ymarfer wedi'u cwblhau eto, mae swm sylweddol o'r cyllid hwnnw wedi'i ddefnyddio i ddarparu hyfforddiant ar y Ddeddf Galluedd Meddyliol ac i reoli'r system DoLS bresennol. Diweddarodd Llywodraeth y DU ar y mater yn Hydref 2025, gan ddatgan y bydd yn ymgynghori ar gyflwyno'r LPS, ochr yn ochr â chod ymarfer Deddf Galluedd Meddyliol 2005.

Risg 2 - Y Cyngor yn cael ei gosbi oherwydd diffyg cydymffurfiaeth â Deddfau cyfreithiol yn ymwneud â DoLS. Roedd y casgliad ar sail bod nifer fawr o geisiadau DoLS wedi'u ôl-gronni a dim wedi'u cwblhau o fewn yr amserlen gyfreithiol 21 diwrnod. Gwelwyd ers i'r Cydlynydd DoLS cael ei phenodi yn 2022/2023, bod y broses wedi cael ei hadolygu a chyflwynwyd sawl trefn newydd sydd wedi lleihau y nifer o ôl-groniad ceisiadau DoLS. Adlewyrchir hyn yn yr ystadegau cwblhau asesiadau DoLS sydd yn ymddangos wedi cynyddu yn y 3 mlynedd diweddaf fel y ganlyn:

| Blwyddyn | 2023 | 2024 | 2025 |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm Cwblhau ceisiadau/asesiadau | 198 | 203 | 348 |

5.2 O'r asesiadau a gwiriwyd, ymddengys bod pob un gyda dogfennau wedi'u llwytho yn y ffeiliau electroneg ar WCCIS gydag asesiad gan y Meddyg, yr Aseswyr Budd Gorau ac y gymeradwyaeth.

5.3 Er bod cyfartaledd dyddiadau gweithredu yn parhau i fod dros yr amserlen gyfreithlon, gan gynnwys ceisiadau brys, dengys bod canran cwblhau asesiadau wedi cynyddu. Mynegodd y Cydlynydd ei bod wedi gweithredu ar y ceisiadau ar sail oed ac wedi blaenoriaethu ceisiadau ag ymgeisydd dan 90 oed yn hytrach na defnyddio dyddiad derbyn y cais. Er nad yw'r Gwasanaeth yn cydymffurfio â'r amserlen sydd yn golygu eu bod yn agored i risg o ddirwyon, nid y Cyngor yn unig un sydd yn brwydro gyda'r mater yma, mae'r broblem yn bodoli ar draws y wlad.

Fodd bynnag, mae’r Gwasanaeth yn ymrwymo i reoli’r risg drwy flaenoriaethu'r ymgeiswyr sydd ag oedrannau iau, gan drwy brofiad, credir bod ymgeiswyr oedrannau hŷn (90+ oed) yn debygol o fod yn ymgeisydd dan ofal preswyl am gyfnod estynedig, wedi ail-leoli o’u cartrefi oherwydd rhesymau diogelu neu o bosib heb gartref ac felly ddim yn geisiadau ar frys. Yn ogystal, nodwyd bod ceisiadau gyda pherson perthnasol sy'n cynrychioli (RPRs) drwy asiant/ yn cael ei dalu yn fwy tebygol o gyfeirio’r cais at y llys na rhai sydd ag aelodau o'r teulu/perthynas fel cynrychiolydd.

5.4 Oherwydd gohirio dyddiad gweithredu LPS, derbyniwyd nad oedd unrhyw gynlluniau wedi rhoi mewn lle ar gyfer paratoi at weithrediad LPS hyd y bydd dyddiad targed gweithredu wedi ei bennu.

5.5 Gwelwyd bod y Cydlynydd yn atebol i’r Pennaeth Cynorthwyol Diogelu, Sicrwydd Ansawdd, Iechyd Meddwl a Diogelwch Cymunedol ac yn gyfrifol am dderbyn, trefnu, cyfeirio a dosbarthu ceisiadau DoLS a dderbynnir drwy flwch e-bost y Gwasanaeth. Gwelwyd bod y ceisiadau yn cael eu lwytho ar y system WCCIS gan y Cymhorthydd Gweinyddol a’r statws gweithredol yn cael ei ddiweddaru gan y Cydlynydd. Gwelwyd sawl cam ble mae’r Cydlynydd gyda rheolaeth gyfan dros y gweithrediad a gwybodaeth. Gyda chyn lleied o staff profiadol ac adnoddau cyfyngedig, mae risg bod gorddibyniaeth ar un swyddog, hyd y bydd yn medru hyfforddi swyddogion newydd i’r rôl. Yn ogystal, ymddengys nad oes llawlyfr staff ar gyfer gweithredu prosesau DoLS mewn lle sydd yn ategu at y risg o orddibyniaeth. Oherwydd yr adnoddau cyfyngedig, mae diffyg yn y rheolaethau megis methiant i weithredu ar wahaniaethau mewn dyletswyddau wrth gymeradwyo anfonebau a gwelwyd enghreifftiau ble mae swyddog wedi paratoi a chymeradwyo taliadau i’w hunain.

5.6 Ymddengys o’r sampl a wiriwyd o daliadau a wnaed drwy’r Gwasanaeth Taliadau bod rhai taliadau wedi cael eu talu i staff y Cyngor. Eglurodd y Cydlynydd mai taliadau am asesiadau budd gorau sydd wedi’u cynnal gan weithwyr cymdeithasol ar ôl eu oriau gwaith yw rhain, yn ogystal â rhai sydd wedi cael eu cynnal gan y Cydlynydd ei hunan. Nododd y Cydlynydd bod y drefn wedi cael ei rhoi mewn lle er mwyn iddynt allu clirio’r ôl-groniad DoLS, gyda prinder o aseswyr. Mynegodd y Cydlynydd ei bod yn gyfrifol am gyfeirio asesiadau i staff a rhagwelir y bydd hynny yn dod i ben ar ôl Mawrth 2026. Yn dilyn penodiadau newydd ar gyfer 2 swyddog Asesydd Budd Gorau a threfniadau hyfforddi mewn lle, rhagwelir na fydd angen talu staff yn ychwanegol i gynnal yr asesiadau tu allan i oriau gwaith. Er hynny, mae rhaid ystyried goblygiadau treth os gwneir taliadau cyffelyb i’r dyfodol.

5.8 Cedwir y Cydlynydd restr o asesiadau sydd wedi cael eu cynnal gan Feddygon ac Aseswyr Budd Gorau, a hefyd os oedd y cais angen caffael gwasanaeth eiriolwr neu gynrychiolydd annibynnol. Felly gwelir bod modd cysoni’r taliadau yn ôl i’r rhestr o asesiadau’r Cydlynydd. Fodd bynnag, eglurodd y Cydlynydd nad oes gwiriadau a chysoniadau rheolaidd o’r taliadau yn cael eu cynnal all olygu bod posibilrwydd o daliadau dyblyg cael eu talu heb ymwybyddiaeth staff.

6. <u>Camau Gweithredu</u>

**Mae'r Gwasanaeth DoLS wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Mae'r Gwasanaeth yn parhau gyda'r trefniadau newydd sydd mewn lle a hyfforddi staff er mwyn lleihau'r niferoedd o geisiadau sydd wedi'u ôl-gronni.**
- **Hyfforddi staff i ryddhau rhai o gyfrifoldebau'r Cydlynydd rhag gor-ddibyniaeth ar un aelod o staff. Yna, mae modd sefydlu rheolaethau gwahaniad mewn dyletswyddau ar gyfer prosesu taliadau a chynnal cysoniadau.**
- **Bod unrhyw daliadau ar asesiadau gan staff yn ddarostyngedig i dreth.**

Atodiad 9

**FFLYD – DEFNYDD TANWYDD**

**1. Cefndir**

1.1 Mae fflyd y Cyngor yn cynorthwyo gwahanol adrannau i ddarparu ystod eang o wasanaethau i bobl Gwynedd, gan gynnwys casglu gwastraff a chynnal priffyrdd, ac fe arweinir hyn drwy'r Gwasanaeth Fflyd. Mae'r fflyd yn cynnwys ceir trydan, tanwydd ffosil, faniau, bysus mini a loriau casglu gwastraff.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod fflyd cerbydau'r Cyngor yn ddiogel a bod y defnydd a wneir ohonynt yn effeithiol. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio'r systemau sydd mewn lle, yr adroddiadau monitro a'r allbynnau a gynhyrchir, gwirio polisïau â chydymffurfiad, trefniadau tendro, a bod trefniadau trwyddedu, archwiliadau diogelwch ac yswiriant yn briodol ynghyd â sicrhau bod trefniadau addas dros reoli tanwydd.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **CYFYNGEDIG** | **Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.** |

**4. Sgôr Risg Cyfredol**

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| **UCHEL IAWN** | 0 |
| **UCHEL** | 6 |
| **CANOLIG** | 1 |
| **ISEL** | 0 |

**5. Prif Ddarganfyddiadau**

5.1 Mae'r gwasanaeth Fflyd yn dibynnu ar ddwy brif system ar gyfer rheoli cerbydau, ynghyd â dwy system ar wahân i fonitro a rheoli'r defnydd o danwydd. Ar adeg yr archwiliad, darganfuwyd bod y system tracio fflyd yn y broses o gael ei datblygu ymhellach er mwyn integreiddio unedau tracio newydd fydd yn cael eu gosod ar y cerbydau yn y dyfodol agos. Mae bwriad i'r system newydd gael ei integreiddio gyda systemau eraill, er mwyn darparu darlun mwy cynhwysfawr o weithrediadau'r fflyd.

5.2 Gwelwyd bod y system tracio cerbydau fflyd yn anfon e-byst awtomatig at reolwyr sydd ar y system i'w hysbysu pan fo gweithwyr yn goryrru. Wrth adolygu'r adroddiad o'r system ar gyfer y cyfnod rhwng 19 Hydref 2025 a 19 Ionawr 2026, gwelwyd oddeutu 1,000 o achosion ble roedd gyrwyr wedi teithio 60% neu fwy dros y terfyn cyflymder. Gwelwyd bod rhai unigolion yn ymddangos sawl gwaith, ond darganfuwyd bod y system yn dangos camgymeriadau o bryd i'w gilydd, sy'n cyfyngu ar ei ddibynadwyedd. Holwyd y Rheolwr Fflyd ynghylch defnydd yr adroddiadau hyn, ac eglurodd mai cyfrifoldeb y rheolwyr gwasanaeth yw trafod y materion hyn gyda'u gweithwyr, ac nid oes unrhyw sicrwydd bod camau dilynol yn cael eu cymryd nac unrhyw ddefnydd ymarferol yn cael ei wneud o'r wybodaeth. Eglurodd bod bwriad i gael proffil unigol ar gyfer pob gyrrwr yn y dyfodol, gan gynnwys sgôr risg a chofnod o unrhyw droseddau. Bydd hyn yn galluogi'r gwasanaeth i adnabod gyrwyr sydd angen ymyrraeth, hyfforddiant neu gefnogaeth bellach.

5.3 Nid oes unrhyw adroddiadau eraill, heblaw am achosion o oryrru, yn cael eu creu o'r system. O ganlyniad, ac oni bai bod monitro unigol yn cael ei gynnal ar bob gyrrwr, mae'n amhosib cadarnhau os yw gyrrwr wedi bod yn gyrru am oriau rhy hir, neu bod defnydd personol y tu allan i'r gwaith ayb.

5.4 Cadarnhaodd y Rheolwr Fflyd nid yw'n bosib diffodd yr unedau tracio yn y cerbydau, ond bod nifer o'r unedau tracio wedi torri. Gwiriwyd y system tracio fflyd ac ymddengys bod o leiaf 88 cerbyd heb eu tracio ers 2023 neu'n gynharach, sy'n awgrymu bod y rhain yn annhebygol o fod yn weithredol.

5.5 Mae wedi ei nodi yn un o bolisïau'r Fflyd; "Mae gweithiwr sy'n gyrru ar fusnes y Cyngor yn gyfrifol am ddefnyddio cerdyn adnabod bob amser wrth ddefnyddio un o gerbydau Cyngor Gwynedd a chyflwyno eu trwydded yrru yn ôl y gofyn." Gwiriwyd y system tracio fflyd ar gyfer wythnos gyntaf Chwefror 2026, a gwelwyd bod dros 150 o achosion ble nad oes cerdyn adnabod wedi ei ddefnyddio.

5.6 Mae sawl polisi ar gael yn ymwneud â'r cerbydau fflyd, megis 'Gyrrwr Diogel', 'Cerbyd Diogel', 'Taith Diogel', 'Llenwi Cerbydau', a'r 'Polisi Fflyd a Risg Ffyrdd Galwedigaethol'. Mae cyfrifoldeb ar y Rheolwyr gwasanaethau i sicrhau bod staff yn eu darllen, ond nid oes sicrwydd bod hyn yn digwydd. Eglurodd y Rheolwr Fflyd bod bwriad rhoi'r polisïau hyn mewn teilsen ar y fewnrwyd er mwyn i staff gael mynediad haws atynt.

5.7 Gwiriwyd sampl o 10 cerbyd oddi ar y system asedau fflyd, a gwelwyd bod pob un wedi derbyn archwiliad diogelwch o fewn y flwyddyn, a gyda phrawf MOT cyfredol.

5.8 Gwiriwyd y drefn ar gyfer rhoi tanwydd o gyflenwad y Cyngor mewn cerbydau, a darganfuwyd bod pob cerbyd gyda tag tanwydd unigol. Mae angen i'r gyrwyr gyflwyno'r tag i'r synhwyrydd ar y system tanwydd a rhoi darlleniad odomedr cyfredol i mewn. Cadarnhaodd y Rheolwr Fflyd bod y system tanwydd 'Jigsaw' yn gwirio ac yn adnabod bod y darlleniad yn gywir gan ddefnyddio'r wybodaeth sydd wedi ei storio ers y tro diwethaf i'r cerbyd gael ei lenwi. Mae'r rheolaeth hyn yn atal gyrwyr rhag tanddatgan yn fwriadol, ond gweler rhai achosion ble mae camgymeriadau anfwriadol yn cael eu gwneud ac mae'n rhaid cysylltu gyda'r adran Fflyd i'w datrys.

5.9 Mae'r system tanwydd 'AllStar' yn cael ei defnyddio ar gyfer staff sy'n defnyddio cyflenwad tanwydd allanol. Mewn achosion o'r fath, rhaid defnyddio cerdyn banc sy'n gysylltiedig â'r cerbyd i lenwi tanwydd, gan dalu gyda PIN unigryw. Mae modd i'r gyrwyr roi unrhyw faint o danwydd i mewn. Mae adroddiadau yn cael eu hanfon yn syth at yr adran Gyllid, ac mae gwiriadau yn ôl-weithredol ym mhob achos. Cadarnhaodd y Rheolwr Fflyd ei fod yn cymeradwyo'r ceisiadau a wneir drwy'r cardiau banc, ond mae'r gwasanaeth Fflyd yn bwriadu uno'r system yma gyda'r system 'Jigsaw' er mwyn sicrhau proses fwy cyson, a gallu codi unrhyw faterion yn awtomatig.

5.10 Gwiriwyd sampl o 5 taith/cerbyd er mwyn gwirio'r milltiroedd cofnodedig a thanwydd a dynnwyd. Nid oedd unrhyw gofnodion ar gael yn y system tanwydd ar gyfer 1/5, ond fe wiriwyd y 4 arall.

5.11 Mae'r Cyngor wedi dechrau defnyddio cwmni allanol DAVIS er mwyn cynnal gwiriadau cyfnodol ar drwyddedau gyrwyr. Ymddengys mai dim ond yr adran Priffyrdd, Peirianneg a YGC, ynghyd â rhannau o'r adran Amgylchedd yn unig sydd wedi dechrau gweithredu'r trefniadau newydd hyn, oherwydd elfennau risg uwch yn erbyn defnydd o gerbydau trwm, ond y gobaith yw bydd pob adran yn mabwysiadu'r drefn yma yn y dyfodol agos.

5.12 Ymddengys nad oes unrhyw drefn dros reoli a monitro cerbydau trydan. O ganlyniad, mae'r trefniadau presennol yn dioddef o gyfrifoldebau aneglur, diffyg goruchwyliaeth ac atebolrwydd clir. Mae gwybodaeth ar y gwefru ar gael ar y system Swarco, ond nid oes unrhyw swyddog yn monitro'r wybodaeth. Nid oes unrhyw negeseuon ar y system, a nid oes unedau tracio wedi'u gosod ar y cerbydau trydan ar hyn o bryd, ond bod y rhain wrthi'n cael eu datblygu gan y gwasanaeth TG ynghyd â'r unedau tracio newydd. Nid oedd rhestr gyfredol o holl bwyntiau gwefru ar gael ar gyfer y Cyngor cyfan, ac mae'n ymddangos bod nifer o bwyntiau gwefru mewn ysgolion heb gael eu cysylltu ac felly ddim yn cael eu defnyddio.

5.13 Nid oes hawl i wneud unrhyw ddefnydd personol o gerbydau fflyd y Cyngor. Fodd bynnag, mae rhai swyddogion yn mynd â'r cerbydau adref, yn ddibynnol ar ofynion eu swyddi. Mae cyfrifoldeb ar y rheolwyr i fonitro defnydd o'r cerbydau, ac oherwydd y diffyg monitro presennol, mae risg y gall rhai defnyddwyr wneud defnydd personol o'r cerbydau.

5.14 Mae nifer o gerbydau fflyd y Cyngor wedi'u neilltuo yn anffurfiol i adrannau penodol. Fodd bynnag, nid yw pob cerbyd yn cael ei ddefnyddio pob dydd, ac yn aml y gwelir ceir yn sefyll heb eu defnyddio. O ganlyniad i hyn, pan fydd aelod o staff o adran arall yn gwneud cais am gerbyd, mae'n rhaid i'r Rheolwr Fflyd hurio cerbyd ar eu cyfer, er bod cerbydau eraill ar gael ond heb eu defnyddio. Gall hyn arwain at gostau ychwanegol diangen i'r Cyngor. Mae'r Rheolwr Fflyd wedi paratoi dogfen ar fodel newydd i fonitro lefelau defnydd pob cerbyd er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau wir angen y cerbydau, ond nid oes trafodaeth ymhellach wedi bod gydag Uwch Swyddogion hyd yma.

**6. <u>Camau Gweithredu</u>**

**Mae'r Gwasanaeth Fflyd wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Sefydlu system tracio cerbydau newydd (yn cynnwys platfform ac unedau newydd), a'i gynnwys fel rhan o System Rheolaeth Fflyd y Cyngor. Diweddaru cynlluniau gofal yn rheolaidd i osgoi gwybodaeth yn cael ei golli.**
- **Sicrhau fod trefniadau adnabod gyrwyr yn cael ei gyfarch wrth uwchraddio'r system tracio a gosod cyfarpar newydd.**
- **Sefydlu trefniadau monitro cadarn ar gyfer adroddiadau goryrru, a sefydlu canllawiau i reolwyr.**
- **Cyhoeddi teilsen newydd ar fewnrwyd y Cyngor sydd yn cynnwys polisïau a gweithdrefnau'r Gwasanaeth Fflyd.**
- **Adnabod pwy sydd yn gyfrifol am y systemau gwefru cerbydau drwy sefydlu perchnogaeth a chyfrifoldebau clir ynghyd â datblygu'r systemau tracio i gynnwys y cerbydau trydan.**
- **Adolygu a thrafod modelau ariannu cerbydau'r Cyngor a gosod lefelau defnydd disgwyliedig.**

Atodiad 10

# DILYNIANT GORAMSER GLANHAU STRYD

## 1. Cefndir

1.1 Cynhaliwyd Archwiliad Mewnol Goramser Glanhau Stryd fel rhan o gynllun 2024/25, er mwyn sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer gweinyddu amserlen gwaith glanhau strydoedd a gwagio biniau stryd yng Ngwynedd, yn ogystal â gwirio trefniadau prosesu a dilysu ceisiadau am oramser. Rhoddwyd lefel sicrwydd cyfyngedig i'r archwiliad, hynny yw, er bod rheolaethau mewn lle, roedd angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod y gweithrediadau cytunedig yn deillio o'r archwiliad llawn ddiweddaraf wedi eu gweithredu yn amserol i liniaru'r risgiau a adnabuwyd. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio cofnodion a dogfennaeth gefnogol.

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| DIGONOL | **Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.** |

## 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| UCHEL IAWN | 0 |
| UCHEL | 0 |
| CANOLIG | 4 |
| ISEL | 0 |

## 5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 O'r 14 gweithrediad a gytunwyd o'r archwiliad gwreiddiol, gwelwyd fod 9 wedi eu gweithredu, adroddir y casgliadau isod. O ganlyniad, cyflwynwyd cynllun gweithredu cytunedig diwygiedig. Nodir fod Rheolwr Gwasanaethau Stryd wedi ymddeol ers yr archwiliad llawn, gyda Rheolwr TCC ac Edrychiad Stryd wedi cymryd drosodd ei ddyletswyddau.

5.2 Adroddwyd fod y gwasanaeth yn siomedig iawn gyda system newydd 'Bartec'. Darganfuwyd rhai misoedd yn ôl, cyn i'r system fod yn weithredol, na fyddai'n cyrraedd eu gofynion o ran optimeiddio gweithrediadau. Cadarnhawyd eu bod yn asesu gwahanol opsiynau i gyd-fynd orau â gofynion y gwasanaeth. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd eu gwaith gyda 'Bartec' yn wastraff llwyr, a bod map rhyngweithiol yn nodi holl asedau'r gwasanaeth nawr yn eu meddiant.

5.3 Gwiriwyd amserlenni gwaith gweithwyr o bob ardal am y cyfnod Mehefin 16eg 2025, hyd at 31ain o Orffennaf 2025, sef cyfnod tebyg i'r hyn wiriwyd yn yr archwiliad llawn. Gwelwyd fod gweithwyr yn ardal Meirionnydd yn parhau i gychwyn gweithio cyn 5:00 y.b, sydd yn groes i ofynion Iechyd a Diogelwch, gyda rhai yn cychwyn mor gynnar â 3:00 y.b. Cadarnhaodd Rheolwr TCC ac Edrychiad Stryd ei fod wedi atgoffa'r gweithlu i beidio â gwneud hyn ar lafar mis Hydref 2025, ac eto yn ysgrifenedig yn ystod cyfnod y Nadolig.

5.3 Yn yr un modd, gwelwyd sawl achlysur ar draws yr ardaloedd o aelodau staff yn peidio â chadarnhau amseroedd cychwyn a gorffen, gyda nifer o geisiadau heb eu cymeradwyo. Gwelwyd hefyd nad oes gwahaniaethu dyletswyddau wrth gymeradwyo ceisiadau Arweinydd Tîm yng Nghaernarfon, ble fod llofnod yr aelod staff a'r cymeradwywr union yr un fath. Wrth wirio slip cyflog yr Arweinydd Tîm dan sylw am fis Gorffennaf 2025, gwelwyd fod goramser wedi ei dalu ar gyfraddau cyflog gwahanol, fel y disgwyl, gydag unrhyw waith glanhau yn cael ei dalu ar raddfa 'Glanhawr' nid 'Arweinydd Tîm'.

5.4 Cytunwyd yn yr archwiliad llawn i dreialu newid amlder glanhau rhai ardaloedd fel i leihau'r galw am oramser. Eglurwyd fod hyn wedi digwydd yn Nwyfor, Bangor, a Meirionnydd, ond nad oedd yn llwyddiant, gyda sbwriel wedi casglu, a thrigolion wedi cwyno, felly rhaid roedd dychwelwyd i'r drefn arferol. Serch hynny, cadarnhaodd Rheolwr TCC ac Edrychiad Stryd fod trefniadau amgen ar y gweill.

5.5 Er wedi llwyddo i brynu ail lori ar gyfer casglu gwastraff i waredu ar sifftiau 12 awr, eglurwyd nad ydi cyllidebau'r gwasanaeth wedi caniatáu i brynu cerbyd fydd yn gallu gwahanu gwastraff ailgylchu. I osgoi gwaethygu'r broblem, nodwyd nad ydi'r gwasanaeth yn gosod rhagor o finiau ailgylchu ar strydoedd Gwynedd.

5.6 Adroddwyd fod gan y gwasanaeth Gyfrifydd Grŵp pellach, a'u bod yn cyfarfod, ac yn derbyn adroddiadau yn fisol. Gwelwyd fod y gwasanaeth wedi bod yn llwyddiannus yn eu cais i gynyddu'r gyllideb staffio i gynnwys aelodau staff nad oeddent wedi eu hystyried yn y gyllideb ar adeg yr archwiliad llawn.

5.7 O'i gymharu â 2024/25, gwelwyd fod gwariant ar oramser yn 2025/26 yn ardal Arfon wedi lleihau £16,305, Meirionnydd £20,067, a Dwyfor £16,461, gyda gorwariant ar staff 2025/26 wedi ei rhagdybio i fod oddeutu £88,558 o'i gymharu â gorwariant o £275,305 yn 2024/25.

5.8 Er bod peth gwaith i'w wneud i bwrcasu system effeithiol, ac i dynhau trefniadau monitro ceisiadau am oramser, tybir fod y gwasanaeth wedi bod yn llwyddiannus yn eu hymdrechion i leihau gwariant ar oramser heb amharu ar ansawdd y gwaith.

## 6. Camau Gweithredu

**Mae'r swyddogion perthnasol wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Sicrhau bod y Gwasanaeth yn gweithredu ar system tracio weithredol, gan greu adroddiadau monitro rheolaidd ar gyfer dadansoddi data a gwirio eu priodoldeb o ran gweithio'n effeithiol ac effeithlon.**
- **Sefydlu trefniadau i fonitro nad ydi staff yn cychwyn gweithio cyn 5:00 y.b.**
- **Fod unrhyw geisiadau goramser yn cael eu gwirio am gywirdeb, a'u cymeradwyo yn briodol.**
- **Ystyried opsiynau amgen i alluogi prynu cerbyd fydd yn caniatáu gwahanu gwastraff ailgylchu.**

Atodiad 11

**DILYNIANT - RHEOLAETH CATEGORI AMGYLCHEDDOL**

**1. Cefndir**

1.1 Cynhaliwyd Archwiliad Mewnol Rheolaeth Categori Amgylcheddol fel rhan o gynllun 2024/25, er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gwario arian cyhoeddus mewn modd strategol a chywir. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu cynnal adolygiad ar sampl o gytundebau er mwyn gwirio datblygiad y Cyngor o gynlluniau categori amgylcheddol a gwirio bod y Tîm Categori yn blaenoriaethu gwerth am arian a chadw'r budd yn lleol.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod y gweithrediadau cytunedig yn deillio o'r archwiliad llawn ddiweddaraf wedi eu gweithredu yn amserol i liniaru'r risgiau. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio cofnodion neu ddogfennaeth gefnogol.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| CYFYNGEDIG | **Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.** |

**4. Sgôr Risg Cyfredol**

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| UCHEL IAWN | 0 |
| UCHEL | 1 |
| CANOLIG | 1 |
| ISEL | 0 |

**5. Prif Ddarganfyddiadau**

5.1 Cytunwyd ar 4 cam gweithredu yn yr archwiliad gwreiddiol ym mis Ebrill 2025, un gyda sgôr risg o 6, dau gyda sgôr risg o 12, ac un arall gyda sgôr risg o 9. Gwelwyd bod y camau wedi cael eu gweithredu yn rhannol ac adroddir ar y casgliadau isod, ond mae gwaith parhaus mewn lle i ddatblygu systemau er mwyn blaenoriaethu gwerth am arian a chadw'r budd yn lleol. O ganlyniad, cyflwynwyd cynllun gweithredu cytunedig diwygiedig.

5.2 Gwelwyd o’r archwiliad mewnol gwreiddiol mai un o’r risgiau i’w lliniaru oedd methiant i gynnal a chadw rhestr o holl gontractau yn briodol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn sylw yn brydlon. Roedd y gwasanaeth yn bwriadu trosglwyddo holl gytundebau i’r system K2 fel bod modd monitro statws y cytundebau, gan gynnwys adnabod pryd mae dogfennau perthnasol angen eu hadnewyddu. Fodd bynnag, nid yw’r system K2 wedi cael ei ddatblygu yn llawn ar hyn o bryd, a’r Adran Priffyrdd, Peirianneg a YGC yw’r unig rai sy’n ei ddefnyddio. Nid yw’n edrych yn debygol bod posib dechrau datblygu’r system K2 i adrannau eraill am rai misoedd eto, oherwydd llwyth gwaith yr adran. O ganlyniad i hyn, penderfynodd y Tîm Rheolaeth Categori Amgylcheddol i ddechrau treialu system PowerApp i fonitro achrediadau cwmnïau sydd mewn cytundeb ac yr is-gontractwyr er mwyn sicrhau bod manylion y cwmnïoedd yn gyfredol am y cyfnod. Mae bwriad i gael y system PowerApp yn fyw erbyn mis Ebrill 2026.

5.3 Hyd yma, mae’r Tîm Rheolaeth Categori Amgylcheddol wedi trosglwyddo rhestr o isgontractwyr i’r system PowerApp, ynghyd â’r fframwaith Trin Coed fel man cychwyn. Mae gwaith pellach i’w gyflawni i ddatblygu’r system yn llawn a bydd angen amser sylweddol i fewnbynnu’r holl wybodaeth a’r cytundebau perthnasol. Unwaith wedi’i gwblhau, gellir gweld manylion cyswllt cwmnïau, statws cytundebau, achrediadau, dyddiadau cychwyn a gorffen, cofnodion o fuddion cymdeithasol, yswiriant neu unrhyw ddogfennau hanfodol sydd angen eu hadnewyddu. Bydd y system yn fflagio dogfennau sydd wedi terfynu ac yn anfon hysbysiadau e-bost awtomatig i’r cwmnïau. Bwriedir sefydlu teilsen ar gyfer pob contract ar y system PowerApp, a’u rhannu gyda'r adrannau perthnasol unwaith y bydd y system wedi’i gweithredu’n llawn.

5.4 Yn ystod yr archwiliad gwreiddiol, bwriad y Tîm Rheolaeth Categori Amgylcheddol oedd trosglwyddo’r holl drefniadau i’r system K2. Fodd bynnag, erbyn hyn, mae’n ymddangos nad yw’r system K2 yn addas ar gyfer pob fframwaith a chytundebau'r holl adrannau. Er bod yr Adran Priffyrdd, Peirianneg a YGC yn defnyddio’r system K2 ar hyn o bryd, mae’r system yn gofyn am drwydded unigol i’w defnyddio, gall greu rhwystrau i reolwyr mewn adrannau eraill, ond mae modd rhannu’r system PowerApp gyda’r holl staff heb yr un cyfyngiad.

5.5 Risg arall a godwyd yn yr archwiliad gwreiddiol oedd posibilrwydd o fethu cydymffurfio â’r Ddeddf Caffael 2023 newydd ddaeth i rym ym mis Chwefror 2025. Cyflwynodd y Ddeddf nifer o ofynion i’w hymgorffori yn y prosesau, ynghyd â hyfforddiant mandadol i staff. Gwiriwyd statws hyfforddiant aelodau’r Tîm Rheolaeth Categori Amgylcheddol, a derbyniwyd tystiolaeth bod un aelod o staff wedi cwblhau’r cwrs ‘Transforming Public Procurement’ gan y Llywodraeth, ac un swyddog yn gweithio trwy’r modiwlau. Nid oedd un aelod o staff wedi cychwyn ar yr hyfforddiant hyd oherwydd absenoldeb, ond mae bwriad iddi gychwyn ar yr hyfforddiant ym Mawrth 2026. Yn ogystal, mae’r Rheolwr Tîm Categori wedi trefnu i’r tîm Categori Amgylcheddol fynychu hyfforddiant pellach (Pass Procurement) unwaith y bydd dyddiad ar gael.

5.6 Yn dilyn cais gan yr Adran Priffyrdd, Peirianneg a YGC, cafodd sesiwn hyfforddiant ei gynnal ar 17eg o Orffennaf 2025 i Dîm Rheoli'r Adran. Gwelwyd tystiolaeth bod y sesiwn yn rhoi gwybodaeth am reolau a threfniadau caffael y Cyngor, er mwyn sicrhau bod gan bawb yr un ddealltwriaeth sylfaenol o gaffael. Yn ogystal, amlygodd y sesiwn y newidiadau a gyflwynwyd gan y Ddeddf Caffael, gan sicrhau bod aelodau staff yn ymwybodol o'r trefniadau newydd sydd bellach mewn grym. Cadarnhaodd y Gwasanaeth Caffael eu bod yn barod i ddarparu'r hyfforddiant i unrhyw dîm sydd ei angen, ac mae'r Adran Priffyrdd, Peirianneg a YGC wedi gofyn am sesiynau pellach. Mae'r Gwasanaeth Caffael wrthi'n datblygu cyflwyniad ar gyfer timau Priffyrdd a Pheirianneg, gyda'r bwriad i gynnal y sesiynau yn fuan. Mae YGC hefyd wedi gwneud cais am gyflwyniad pellach, ac mae sesiwn eisoes wedi'i ddarparu dechrau mis Chwefror.

5.8 Mae hyfforddiant corfforaethol hefyd ar y gweill, gan gynnwys yr hyfforddiant 'Caffael a Chontractio' sydd ar Fframwaith Dysgu a Datblygu'r Cyngor. Cadarnhaodd y Gwasanaeth Caffael bydd ymgynghoriad gyda'r timau Categori yn cael eu cynnal cyn y sesiwn, fel eu bod yn ymwybodol a chyfarwydd â'r cynnwys ac yn gallu darparu sylwadau a mewnbwn perthnasol ar y cynnwys. Yn ogystal, mae hyfforddiant 'Gwerth Cymdeithasol a Chynaliadwyedd' yn cael ei ddarparu i swyddogion caffael, ac mae'r Tîm Rheolaeth Categori eisoes wedi mynychu un o'r sesiynau. Bwriad y Gwasanaeth Caffael yw datblygu mwy o hyfforddiant yn y dyfodol er mwyn cryfhau dealltwriaeth a sgiliau caffael ar draws y Cyngor.

## 6. <u>Camau Gweithredu</u>

**Mae'r Tîm Rheolaeth Categori Amgylcheddol a'r Uned Gaffael wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Dadansoddi gwariant i gael darlun llawn o gontractau i bwrpas y rhaglen waith gyflawn.**
- **Parhau i ddatblygu'r systemau PowerApp a K2 fel eu bod yn gwbl weithredol, a chytuno pa gytundebau sy'n fwyaf addas ar gyfer pob system cyn trosglwyddo'r holl gytundebau ac ymarferiadau monitro.**
- **Trefnu bod pob aelod o staff Tîm Rheolaeth Categori yn derbyn a chwblhau hyfforddiant e-modiwlau y Llywodraeth 'Diwygio Caffael' yn brydlon.**
- **Parhau i ddatblygu mwy o hyfforddiant yn y dyfodol er mwyn gwella dealltwriaeth a sgiliau caffael ar draws y Cyngor.**
- **Cynnal gwiriadau ar hap o sampl o gontractau i sicrhau bod gweithdrefnau cywir wedi eu dilyn a darparu cywiriadau/gweithrediad ble'n berthnasol.**

Atodiad 12

# AMLOSGFA BANGOR

## 1. Cefndir

1.1 Mae Amlosgfa Bangor yn gweithio gyda threfnwyr angladdau i ddarparu gwasanaeth proffesiynol ar gyfer teuluoedd yn ystod cyfnod anodd. Fel yr unig amlosgfa yng Ngwynedd, mae ar agor pob dydd Llun i Gwener, ac ar fore Sadwrn ar gais.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer rheoli a chynnal Amlosgfa Bangor yn unol â rheoliadau a safonau perthnasol. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu ymweld â'r amlosgfa a gwirio fod trefniadau yn ddigonol o ran gweinyddiaeth a staffio, derbyn incwm, ac iechyd a diogelwch.

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| DIGONOL | **Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.** |

## 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| UCHEL IAWN | 0 |
| UCHEL | 0 |
| CANOLIG | 3 |
| ISEL | 0 |

## 5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Ymwelwyd â'r amlosgfa ar ddydd Iau, 5ed o Chwefror, 2026, ym mhresenoldeb yr Arweinydd Tîm Amlosgfa. Roedd y sefydliad wedi'i gyflwyno'n dda a'r staff yn gyfeillgar a chymwynasgar. Roedd yr ystafell amlosgi yn cael ei hadnewyddu, gyda 2 amlosgydd newydd wedi eu gosod a swyddfa newydd yn cael ei chreu. Fel y disgwyliwyd roedd yr ardal braidd yn llychlyd, ond ni effeithiodd hyn ar weithrediadau'r amlosgfa, gyda'r amlosgfeydd, offer a theclynnau, a'r mannau paratoi yn lân ac yn drefnus.

5.2 Gwelwyd nad oedd Llyfr Ymwelwyr yr amlosgfa wedi ei leoli wrth y brif fynedfa, ond yn hytrach yn y gegin/'stafell staff, wedi ei leoli yng nghefn yr adeilad. Ar gyfer cael mynediad, rhaid mewnbynnu côd wrth y drws, gyda phob aelod staff yn ymwybodol ohono. Nodir fod y drws hwn yn caniatáu mynediad hefyd i'r ystafell amlosgi. Ar fore'r ymweliad gwelwyd nad oedd y drws wedi ei gloi, a'i fod yn bosibl i unrhyw un gael mynediad. Eglurwyd fod y drws wedi ei gadw ar agor i ganiatáu mynediad i'r contractwyr sydd yn gweithio yn yr ystafell amlosgi. Cadarnhawyd y byddai'r drws yn cael ei gloi cyn gwasanaeth cyntaf y dydd, pan fyddai'r cyhoedd ar y safle. Gwelwyd fod y drws wedi ei gloi erbyn y gwasanaeth cyntaf. O ran y Llyfr Ymwelwyr, er bod sawl ymwelydd wedi ei lofnodi yn y mis diwethaf, ni welwyd fod y contractwyr sy'n gweithio ar y safle yn gwneud. Gwelwyd o leiaf 3 gweithiwr yn ystod yr ymweliad. Awgrymwyd fod yr Arweinydd Tîm Amlosgfa yn gofyn i'r contractwyr lofnodi'r llyfr o hyn ymlaen, gan ystyried ei symud yn agosach i'r brif fynedfa - cytunwyd i'w leoli yn y swyddfa ger y brif fynedfa.

5.3 Gwiriwyd cofnodion hyfforddiant pob aelod o staff yr amlosgfa ar System Swyddi Gwynedd cyn yr ymweliad. Ymddengys nad oedd unrhyw un wedi cwblhau hyfforddiant tân yn y 5 mlynedd diwethaf, ac mai ond yr Arweinydd Tîm Amlosgfa sydd gyda hyfforddiant Cymorth Cyntaf cyfredol. Gwelwyd tystysgrifau yn ystod yr ymweliad yn cadarnhau fod pawb wedi cwblhau hyfforddiant tân yn Tachwedd 2025, a bod y Cymhorthydd Gweinyddol wedi cwblhau hyfforddiant Cymorth Cyntaf yn ddiweddar. Eglurodd yr Arweinydd Tîm Amlosgfa fod aelodau staff wedi cael trafferthion yn y gorffennol ble nad oedd cofnodion hyfforddiant, slipiau cyflog a.y.b. yn diweddaru ar systemau Cyngor Gwynedd.

5.4 Ond dwy o aelodau staff yr amlosgfa sydd wedi cwblhau y rhan fwyaf o fodiwlau E-ddysgu mandadol y Cyngor, gyda neb wedi derbyn y polisi Diogelu. Eglurwyd nad oes gan y Technegwyr na'r Gofalwr gyfrif e-bost i gael mynediad i'r Porth E-ddysgu na'r Ganolfan Bolisi, ond bydd rhaid trefnu hynny yn y dyfodol agos i allu gweithredu'r amlosgfeydd newydd. O ran gweddill y staff, cadarnhaodd yr Arweinydd Tîm Amlosgfa y byddai'n trefnu iddynt gwblhau'r modiwlau a derbyn polisïau cyn gynted â phosibl. Erbyn rhyddhau'r Adroddiad Terfynol, gwelwyd fod y Technegwyr oll wedi derbyn cyfrif e-bost.

5.5 Gwelwyd nad oes gan yr amlosgfa Gynllun Rheoli Tân, ac nad ydi profion ar y larwm na diffoddwyr tân yn cael eu cynnal yn amserol ar bob achlysur. Roedd yr Arweinydd Tîm Amlosgfa wedi synnu nad oedd Cynllun Rheoli Tân yn bresennol yn y bocs glas. Fodd bynnag, eglurwyd y byddai'n rhaid adolygu'r cynllun yn fuan yn dilyn cwblhau'r gwaith adeiladol. Yn dilyn rhyddhau'r Adroddiad Drafft gwelwyd tystiolaeth fod Rheolwr Asedau Bwrdeistrefol wedi rhannu'r cynllun cyfredol gyda'r gwasanaeth Eiddo ar gyfer ei adolygu ers Gorffennaf 2025, ond na dderbyniwyd ymateb. Tybir ar y pryd fod y gwasanaeth Eiddo wedi adolygu'r cynllun, gan roi copi yn y bocs glas, hyd y darganfu'r Archwiliwr nad oedd yn bresennol.

Cadarnhawyd fod Rheolwr Asedau Bwrdeistrefol wedi cysylltu gyda'r gwasanaeth Eiddo eto yn dilyn yr archwiliad i ofyn am ddiweddariad, ac yn y cyfamser, wedi trefnu i argraffu copi o'r cynllun ar gyfer y bocs glas.

5.6 Cyn yr ymweliad, detholwyd sampl o 10 o drafodion incwm yr amlosgfa rhwng y cyfnod Ebrill-Rhagfyr 2025. Diystyriwyd 1 gan mai taliad yn ymwneud â'r fynwent ydoedd, ac nid yn gysylltiedig ag amlosgiad penodol. Gwiriwyd cywirdeb yr holl waith papur perthnasol, yn fewnol ac yn statudol, o ddechrau'r broses i'r diwedd, h.y. o dderbyn archeb gan y trefnwyr angladdau, i dderbyn taliad a chasglu llwch (lle bo'n berthnasol). Fel y disgwylir, mae nifer o ffurflenni i'w llenwi, tystiolaeth sydd ei angen, datganiadau i'w llofnodi, awdurdodiadau angenrheidiol, a chadw cofnodion manwl yn gysylltiedig. Ar wahân i fethiant i gadarnhau ffioedd amlosgi ar un ffurflen (tybir sy'n dderbyniol o ystyried fod y wybodaeth wedi ei ailadrodd ar sawl dogfen arall), gwelwyd bod staff yr amlosgfa yn ddiwyd, yn drylwyr, ac yn cymryd balchder sylweddol yn eu gwaith. Roedd pob amlosgiad mewn perthynas â'r sampl wedi'i ddogfennu'n dda, gyda'r holl waith papur perthnasol wedi'i gadw gyda'i gilydd. Roedd yr holl ddogfennaeth wedi dod i law o fewn dau ddiwrnod i'r amlosgiad, fel y disgwyl, gyda'r amlosgiad ei hun wedi digwydd ar bob achlysur ar ddiwrnod y gwasanaeth, a thaliad wedi'i wneud, a'r llwch wedi'i gasglu o fewn amserlen resymol. Ar sawl achlysur yn ystod yr ymweliad byddai staff yn sgwrsio â'r trefnwyr angladdau dros y ffôn ac wyneb yn wyneb. Ar bob achlysur roedd y sgwrs yn barchus, ond hefyd yn gyfeillgar, yn dyst i'r berthynas waith agos a ddatblygwyd dros y blynyddoedd.

## 6. Camau Gweithredu

**Mae'r Arweinydd Tîm Amlosgfa wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Sicrhau fod unrhyw ddrysau sy'n arwain at leoliadau cyfyngedig, e.e. yr ystafell amlosgi, wedi eu cloi yn dynn ar bob achlysur.**
- **Adleoli'r Llyfr Ymwelwyr yn agosach i'r brif fynedfa, gan sicrhau fod pob ymwelydd, gan gynnwys contractwyr, yn arwyddo mewn ac allan.**
- **Atgoffa staff i gwblhau modiwlau E-ddysgu mandadol y Cyngor ac i dderbyn polisïau, gan drefnu cyfeiriadau e-byst ar gyfer unrhyw staff sydd eu hangen.**
- **Gwneud ymholiadau ynglŷn â pham nad ydi hyfforddiant staff yr amlosgfa yn cael ei gofnodi ar System Swyddi Gwynedd ar bob achlysur.**
- **Sicrhau, yn dilyn cwblhau'r adnewyddiadau, fod Cynllun Rheoli Tân newydd yn cael ei lunio, a'i gadw yn y bocs glas.**
- **Trefnu fod profion tân yn cael eu cynnal yn amserol ar achlysuron pan fo'r person cyfrifol yn absennol o'r gwaith.**